PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

75c | Rhif 453 | Tachwedd 2022




t.14

## Derbyn Gwobr



t.12

## Banon - un o Blant y Sianel



t.6





# Sŵn y Gân

Llongyfarchiadau mawr i bawb fu ynghlwm wrth gynhyrchiad Ysgol Penweddig o Sŵn y gan – (Rodgers & Hammerstein – cyfieithiad Cymraeg Delyth Mai Nicholas ac Elsbeth Jones|). Diolch arbennig i Catrin Haf Davies (Cyfarwyddwr) ac Arwel Williams, (Cyfarwyddwr cerdd).

Cofiwn am gynhyrchiadau gyflwynodd Penweddig yn y gorffennol – Smeic (2002), Agi! Agi! (2008), Wrth aros Godot (2016) a Plas Du (2017). Mae'n dda gweld yn y rhaglen awgrym na fyddwn yn hir cyn cael un arall.

Roedd y disgyblion yn disgleirio fel unawdwyr, offerynwyr ac aelodau o'r corws. Dyma y prif gymeriadau.

Maria: Catrin Aur Evans; Y Chwaer Berthe: Catrin Haf; Y Chwaer Margaretta: Lowri Jones; Y Chwaer Sophia: Gwenllian Mason; Y Barchedig Fam: Gweni King; Corws y lleianod: Elen Crouch, Efa Williams, Tesni Evans, Elan Mabbutt, Caoimhe Melangell, Leela Kelsey, Molly Bakewell, Megan Williams, Alaw Beechey; Capten Georg Von Trapp: Ifan Clubb; Franz: Ioan Mabbutt; Frau: Molly Bakewell; Liesl: Miriam Llwyd; Friedrich: Steffan Jones; Louisa: Llio Tanat; Kurt: Gruffydd Sion; Brigitta: Lleucu Nest; Marta: Megan Griffiths; Gretl: Gwenllian Rhys; Rolf Gruber: Iwan Finnigan; Elsa Schraeder: Nel Rhys-Evans; Max Detweiler: Oisin Pennant; Herr Zeller: Macsen Evans; Baron Elberfeld: Harri Lawson; Von Schreiber: Gwilym Morus; Milwyr: Shane Evans. Harri Lawson.





# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@icloud.com 07966 510195
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**RHIFYN RHAGFYR Dyddiad cau** Rhagfyr 2 **Dyddiad cyhoeddi** Rhagfyr 14

**TACHWEDD 16** Nos Fercher Noson yng nghwmni'r awdur Geraint Lewis, Aberaeron Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

**TACHWEDD 18** Nos Wener Cymdeithas Lenyddol y Garn 'Llwybrau Gofal: profiadau nyrs' gydag Angharad Jones, Canolfan Addysg Gofal Iechyd Prifysgol Aberystwyth yn festri'r Garn am 7.30

**TACHWEDD 18** Nos Wener Cyngerdd Rhys Meirion yng Nghanolfan y Celfyddydau gyda Elen Meirion, John Ieuan Jones ac Ifan Llywelyn Jones am 8.00

**TACHWEDD 19** Dydd Sadwrn Sioe Adar Aberystwyth a Chanolbarth Cymru yn Neuadd y Penrhyn. Ar agor i'r cyhoedd. Mynediad: oedolion £2.00

**TACHWEDD 24** Nos Iau Calan yng Nghanolfan y Celfyddydau am 8.00

**TACHWEDD 26** Nos Sadwrn Clive Edwards yn diddanu yng Nghlwb Pêl-droed Aberystwyth, gydag artistiaid eraill. Bydd yr holl elw yn mynd tuag at Uned Cemotherapi, Ysbyty Bron-glais. Tocynnau yn £10 ar gael gan Megan Jones 01970 612768

**TACHWEDD 30** Nos Fercher Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cylch Meithrin Trefeurig yn y Caban Ysgol Penrhyn-coch am 7.30

**RHAGFYR 2** Nos Wener Noson Goffi ac Adloniant yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor am 7.00

**RHAGFYR 2** Pnawn Gwener Digwyddiad Nadolig Cylch Meithrin Rhydypennau yn Neuadd Rhydypennau o 1530-17.30 Peintio wynebau, stondinau, crefftau, lluniaeth, groto Sion Corn a llawer mwy. Mynediad: £5
18.00 Taith tractorau Nadoligaidd

**RHAGFYR 3** Dydd Sadwrn Ffair Nadolig Plaid Cymru- stondinau Crefftau, Cynnyrch Cartref, Llyfrau, Blodau, Mini Photo Shoots a llawer mwy ym Morlan o 10.00-12.00.

**RHAGFYR 5** Nos Lun Gyrfa chwist Nadolig Yr RABI yng Nghlwb Bowlio Machynlleth am 8.00. Mynediad £3 Sgôr uchaf £30

**RHAGFYR 15** Nos Iau Plygain draddodiadol yn Eglwys St Ioan am 7.00

**RHAGFYR 16** Nos Wener Nos Wener, 16 Rhagfyr, Cymdeithas Lenyddol y Garn 'Dathlu'r Nadolig' yng nghwmni Aled Myrddin a'r teulu yn festri'r Garn am 7.30 o'r gloch

**RHAGFYR 20-21** Dyddiau Mawrth a Mercher Cwmni Mega yn cyflwyno 'Y bachgen bach gwyrdd' yn Theatr y Werin am 10.00 a 13.00 (Mawrth) a 10.00 (Mercher). Tocynnau – postcwmnimega@hotmail.com


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.



James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

james.memorials@btconnect.com

# 30 mlynedd yn ôl



Yn eistedd, mae Sue Williams a'i gŵr Bob, o boptu Chris Clark, Swyddog Rhanbarth Cambrian o Wylwyr y Glannau. Ymysg y rhes gefn mae Don McDarren, ei wraig Mair, Cyd Clare (cyn Wyliwr), Jim Palmer, (y Gwyliwr presennol), Ronnie Davies (|Llywiwr y Bad Achub a Chadeirydd y pwyllgor lleol o'r RNLI) a dau o ffrindiau'r diweddar Gapten McDarren. Llun: Arvid Parry Jones. (o Dincer Tachwedd 1992)

# ANRHEG DELFRYDOL

**Teulu yng Nghanada?**
**Un o'r plant yn y Coleg yng Nghaerdydd?**
**Modryb yn Llundain?**

Beth am ddatrys y broblem o beth i'w roi iddynt yn anrheg Nadolig a rhoi tanysgrifiad blwyddyn o'r Tincer iddynt.

Gellir trefnu ei yrru drwy'r post i unrhyw le yng Nghymru neu weddill Ynysoedd Prydain am gost o £20 y flwyddyn.

Neu gellir gyrru copi digidol trwy ebost am £7 y flwyddyn.

Os hoffech fanteisio ar y cynnig, gan ddechrau â rhifyn mis Rhagfyr, llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd cyn gynted ag y bo modd gyda'r tâl priodol i
Edryd ac Euros Evans
33 Maes Afallen
Bow Street, Aberystwyth
Ceredigion SY24 5BL

Enw……………………………………………………………………………………

Cyfeiriad…………………………………………………………………………………

Hoffwn yrru 10 rhifyn o'r Tincer i'r person isod, ac amgaeaf y tâl priodol o £20 /£7
NEU
Rwyf wedi talu y tâl priodol o £20 /£7 trwy BACS i
**Enw'r Cyfrif**: Y Tincer **NATWEST**
**Rhif y Gangen**: 51-61-06
**Rhif y Cyfrif**: 01833502

Llofnodwyd…………………………………………………………………………………
Y Tincer (Papur / e-bost) i'w yrru i

Enw……………………………………………………………………………………

Cyfeiriad…………………………………………………………………………………

# CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Hydref 2022

**£25** (Rhif 139) Gruffydd Aled Williams Bronafon, Dolau
**£15** (Rhif 297) Angharad Fychan Glanrafon Penrhyn-coch
**£10** (Rhif 145) Iestyn Hughes, 14 Maes y Garn Bow Street

Fe dynnwyd y rhifau buddugol ym Mhwyllgor Sioe Capel Bangor. Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plîs rhowch wybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost m.e.bebb@talk21.com

# Llythyr

Annwyl Olygydd,
Dwi'n hoff iawn o sylw Y Parchg Judith Morris mewn ysgrif yng nghyfrol ddiweddaraf Dr Prydwen Elfed Owens *Malwan bach fel fi...yn cloddio am aur.* Dywed ein bod yn byw mewn cyfnod sydd yn newid, sef cyfnod trothwyol. Hynny yw, nid yw'r hen batrwm wedi llwyr ddiflannu, ond ar yr un pryd nid yw patrymau y dyfodol yn hollol glir ychwaith! Mae fel pe baem yn bodoli mewn dau dymor a dau gyfnod.

O ystyried lleihad cyson yn niferoedd aelodau, addolwyr, Ysgolion Sul a gweithgareddau cymdeithasol eglwysi, mae'n debygol iawn y bydd yr hen batrwm yn diflannu'n raddol yn y blynyddoedd nesaf. Wrth gwrs, does neb yn gwybod hynny'n well nag addolwyr sy'n cynnal yr hen batrwm.

Ymhlith y 62 o ysgrifau yn llyfr Prydwen mae sôn am rai eglwysi arloesol sydd eisoes wedi datblygu patrymau i'r dyfodol. Ynddo hefyd ceir nifer o enghreifftiau o weithgareddau eglwysig newydd a gwahanol ar waith mewn sawl eglwys.

Yn gywir,
Eifion Wynne, Rhuthun

COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

## CFfI Tal-y-bont

# Hwyl yr Hydref

Paratoi ar gyfer diwrnod maes Aberteifi oeddem ar ddechrau mis Hydref. Roedd angen cyfarfod er mwyn i bawb wirfoddoli ar gyfer y cystadlaethau di-ri, ac er mwyn gwneud yn siŵr fod pawb yn hapus gyda'r trefniadau. Nesaf, roedd rhaid ymarfer. Cynhaliwyd ymarferion barnu gwartheg bîff, ymarfer barnu moch ac ymarfer barnu defaid magu dros y diwrnodau nesaf er mwyn sicrhau fod pawb yn hyderus, ac yn barod at y diwrnod mawr ddydd Sadwrn. Cafodd y clwb lwyddiant mawr ar ddiwrnod maes gyda sawl llwyddiant!! Llongyfarchiadau a diolch mawr i bawb fuodd yn cystadlu. Sara am ddod yn ail yn y stocmon hŷn, Ynyr am ddod yn gyntaf yn y stocmon iau, Alun am ddod yn drydydd yn y cywain, a thrydydd i Mirain, Efa ac Ynyr fel tîm!!

Mis llawn gwaith oedd mis Hydref, gan mai paratoi ac ymarfer ar gyfer yr eisteddfod ar ddechrau mis Tachwedd oedd angen ei wneud dros weddill y mis. Yn bennaf, ymarfer ar gyfer y meimio cân. Cynhaliwyd ymarfer bob nos Fawrth a gwnaethom ddilyn thema 'Y Môr'. Diolch yn fawr i Elen am ein hyfforddi, i Jona am y gerddoriaeth, ac i Mair am y Props. Mi roedd yn lot fawr o hwyl. Pob lwc i bawb sy'n cystadlu mis nesaf! **Eleias**



## Aber-ffrwd a Chwmrheidol

**Ymddeoliad**
Dymuniadau gorau i Shelagh Waller, Troedrhiwfron, ar ei hymddeoliad o Ganolfan Innovis yn Peithyll, Capel Dewi.

**Gwirfoddoli**
Mae John Alderslade, Tan Cnwch, yn aelod o fand sydd wedi bod yn diddanu ymwelwyr tu allan i'r Too Hoots ym Mhontarfynach dros yr haf. Llwyddwyd i godi swm dda o arian a gafodd ei roddi i Ambiwlans Awyr Cymru. Mae ef, ei wraig Maureen a Clive Higgs, Abernant, yn gwirfoddoli i gadw gorsafoedd y trên bach yn daclys yn Aber-ffrwd, Nant yr onnen a Pontarfynach. Mae eu gwaith yn werth ei weld ac yn werthfawr iawn i gadw y trên bach ar y cledrau!

**Urdd y Gymuned**
Mae Statkraft yn hapus i'r Gymuned ddefnyddio y Ganolfan Groeso dros y gaeaf. Cynhaliwyd noson pryd y daeth nifer o bobl ynghyd i drafod y ffordd ymlaen ac i drefnu rhaglen dros y gaeaf. Cynhelir noson gymdeithasol ar nos Sadwrn Tachwedd 12 a hefyd y parti Nadolig ar nos Sadwrn Rhagfyr 17. Croeso cynnes i bobl yr ardal, mae eleni yn flwyddyn arbennig gan ei bod yn hanner can mlynedd ers y cyfarfod cyntaf.


Trydan
WILL DAVEY
Electrical & AV

- Gosodiad Trydanol Ardystiedig
- CCTV a AV
- Arolygu & Phrofi
- Pŵeru cerbydau trydan
- Gosod PV solar

GWYNFA, PISGAH, ABERYSTWYTH, SY23 4NE
APPROVED CONTRACTOR
07581 173 684 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

SIOP Y PETHE
Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion
01970 617120
Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan
www.siopypethe.cymru



LLAETH LLEOL ORGANIG
ar gael yn y
Cwtsh Llaeth Aberystwyth a Machynlleth
www.llaethjenkinsmilk.co.uk
07813 827 712
@cwtshllaeth




inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200


**Rhifyn Rhagfyr**
Dyddiad cau: Rhagfyr 2
Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 14

## Madog, Dewi / Cefn-llwyd

**Marchnad Aberystwyth 5/12/2022**
Cofnod 1296 – gwerthwyd y cyfan)

Roedd llai nag arfer ar werth ond y gwerthu yn well yn gyffredinol, yn arbennig yr ŵyn lleiaf. Roedd yr amcangyfrifon fel a ganlyn:

Brokers (559) Amcg £51.50 Mwy £136 gan Breese, Gogarth.

Mamogiaid magu (103) Amcg £61 Mwy £80 gan Jerman, Cwmpenllydan.




Defaid ac ŵyn (16) Amcg a Mwy £70 Jones, Berthlwyd, Tal-y-bont.

Hyrddod (29) Amcg £93 Mwy £155 from Evans, Penllyn, Tywyn.

Ŵyn stôr (589) Amcg £57.60 Mwy 97 &£91 gan Richards, Penrhiwgegin, Cnwch-coch.

Fel hyn oedd hi heddiw. Popeth yn gwerthu yn well ond y nifer i lawr.

Diolch i bawb – yn werthwyr a phrynwyr - am y gefnogaeth.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Erwyd Howells, Tŷ Capel Madog ar farwolaeth ei ewythr – Gomer James o Fferm y Bont, Ponterwyd; hefyd perthynas arall iddo – Peter Manley o Dal-y-bont.

Hefyd â Dai Evans a'r teulu, Fferm y Fronfraith, ar golli ei frawd – Alun Evans, Fronddêl, Llandre.

Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem

Gwefan Cymuned Trefeurig

trefeurig.cymru

- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer

Gwefan Trefeurig Website   Trefeurig8
whhowells@gmail.com




## O Gapel Madog i Bendyrus i Qatar

Difyr yw coed teuluol, ond yn aml, mae mwy o gwestiynau nac atebion. A phan fo'r Beibl Mawr yn y cartref teuluol ers chwe chenhedlaeth, a stôr o luniau, tystysgrifau a darnau papur newydd wedi eu cadw'n daclus ynddo, mae modd treulio oriau yn pori drwy'r cynnwys a darganfod gwybodaeth ddifyr.

Roedd fy Mam-gu wedi ei geni yn y tyddyn lle mae fy rhieni bellach yn byw yng Nghapel Madog. Ac roeddwn i wastad yn gwybod nad oedd teulu fy Nhad-cu i gyd yn hanu o'r ardal, gyda'i fam yn dod o Abercwmboi yng Nghwm Cynon. Yr hyn nad oeddwn yn sylweddoli tan yn ddiweddar iawn oedd bod tylwyth fy Mam-gu hefyd â chysylltiadau â'r cymoedd. Roeddwn wastad wedi meddwl bod ei gwreiddiau'n ddwfn yng nghefn gwlad gogledd Sir Aberteifi .

Yn y Beibl, mae tysytysgrif priodas o 1904 sy'n nodi 42 Edmond Street Tylorstown, yng Nghwm Rhondda fel cyfeiriad tad fy Mam-gu ar yr adeg honno. Ac er bod cyswllt agos rhwng Sir Aberteifi â'r palmant aur i Lundain, mae'n amlwg hefyd fod y cymoedd wedi denu nifer, ac yn benodol y gweithfeydd glo. Glowr oedd fy hen Dad-cu yn ôl ei dystysgrif priodas.

Beth oedd y dynfa i gefn gwlad Sir Aberteifi ar droad y ganrif ddiwetha' ? Neu tybed ai dychwelyd adref oedd e, ar ôl treulio cyfnod penodol yn gweithio yn y



Certified Copy of an Entry of Marriage.
Marriage Solemnized at Capel Madog Parcel Canol in the District of ABERYSTWYTH in the County of Cardigan.

| When Married. | Name and Surname. | Age. | Condition. | Rank or Profession. | Residence at the time of Marriage. | Father's Name and Surname. | Rank or Profession of Father. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| First April 1904 | David Rowlands | 29 years | Bachelor | Collier | 42 Edmond Street Tylorstown Pontypridd | Thomas Rowlands (deceased) | Farmer |
| | Elizabeth Jones | 29 years | Spinster | — | Rhydyceir Penrhyncoch | John Jones | Farmer |

Married in the Capel Madog according to the Rites and Ceremonies of the Calvinistic Methodists by Certificate by me, D. Lewis Minister

This Marriage was solemnized between us, David Rowlands, Elizabeth Jones, in the Presence of us, Rowland Rowlands, Catherine J. Jones. J. J. Hughes Registrar

I hereby Certify the above to be a True Copy of the Entry No. 64 in the Marriage Register, No. — for the said District of ABERYSTWYTH, and the said Register being legally in my custody. Witness my Hand this First day of April 1904. J. J. Hughes Registrar.


Cap. xxxvi, et Anno Primo Victor
Parcel Canol
in the County of Cardigan.
Rank or Profession. | Residence at the time of Marriage.
Collier | 42 Edmond Street Tylorstown Pontypridd

pyllau glo ?

Ac wrth gwrs ar Dachwedd y 9fed 2022, fe hawliodd Pendyrus, neu Tylorstown y penawdau, wrth i hyfforddwr Tîm Pêl-droed Cymru, Rob Page gyhoeddi ei garfan oddi yno ar gyfer pencampwriaeth gynta Cymru yng Nghwpan Y Byd ers 1958. Ac fe ddewisodd ei gartref genedigol i ddatgelu'r cyfan.

Felly dyma dyrchu eto yn y Beibl teuluol i ddarganfod y cyfeiriad. Ac yn wir, mae Neuadd Les Pendyrus lle cyhoeddwyd pwy fydd y 26 chwaraewr ar yr awyren i Qatar, dafliad carreg o'r cyfeirad ar y dystysgrif briodas ar yr aelwyd yng Nghapel Madog. Felly gyda mwy o gwestiynau nac atebion, bydd angen tyrchu ymhellach nawr, gan afael yn y mymryn lleiaf o obaith fy mod yn perthyn i Rob Page ! Ond gall y gwaith ymchwil hwnnw ddim dechrau tan i mi ddychwelyd o Qatar fy hun !

**Iola Wyn**

**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**   YTincer@googlemail.com

## Dolau

**Gwella**
Falch i wybod bod Mike Leggett, Nantlais, yn gwella ac yn cryfhau ar ôl triniaeth yn Ysbyty Treforys yn ddiweddar.

**Symudiadau**
Tipyn o newidiadau yn y Dolau – Dwysli Peleg Williams, gynt o Carreg Cennen wedi symud i Bontnewydd, Gwynedd i fod yn agosach i'r teulu, a teulu newydd wedi symud i'r tŷ.

Owain a Debbie Morgan wedi dychwelyd I hen gartref Owain, sef Carreg Afon.

Dau deulu arall wedi symud i fewn i Dolwerdd a Rhoshengaer yn y misoedd diwethaf.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Lowri Evans, Iestyn a Ffion, Fronddêl ar farwolaeth sydyn Alun Wyn Evans (Al Coed) yn Ysbyty Bron-glais ar 23 Hydref. Cynhaliwyd gwasanaeth yn Amlosgfa Aberystwyth ar Dachwedd 9fed.

**Anghyfleustra**
Mae trigolion y Dolau yn dioddef anghyfleustra gan fod y mynediad i'r pentre o'r A487 ar gau am rai wythnosau er mwyn ail leoli y brif bibell ddŵr. Mae'n debyg y fod hwn yn rhan o'r gwaith i ddarparu palmant o'r pentre i Bow Street.

## Cyngor Cymuned Geneur Glyn

**Cofnodion ac Adroddiadau ar gael ar wefan y Cyngor:** cyngorcymuned geneurglyncommunitycouncil.wordpress.com

**Dyddiad y Cyfarfod**: 26.09.2022 yn Ysgoldy Bethlehem. Derbyniwyd 2 ymddiheuriad.
(Os dymunwch fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod, cysylltwch â'r Clerc).

**Trafodwyd**:
- Nodwyd fod yr ardal ger y polyn baner wedi'i clirio.
- Gosod goleuadau o amgylch y Parc amser Nadolig
- **Materion Cyllid:** Adroddiad llawn ar gael ar wefan y Cyngor. Cytunwyd ar rodd i Glwb Pêl-droed Bow Street tuag at y Noson Tân Gwyllt. Talu Robert Griffiths am waith cynnal a chadw yn y parc. Talu am faner Wcrain newydd.
- **Parc a'r Cyrtiau Tenis**: Gwaith yn parhau i ddatblygu'r parc. Edrych am brisiau am sleid newydd. Penderfynwyd cwrdd yn y Parc ddechrau mis Rhagfyr gyda'r syniadau i drafod ymhellach. Trafodaethau yn parhau i ddatblygu'r cyrtiau Tenis. Trafodaethau gyda 'We Do Tennis' i gynnal sesiwn hyfforddi arall.
- **Adroddiad gan y Cyng Hugh Hughes**: Ardaloedd 20 mya yn symud mlaen.
- **Cyfarfod nesaf**: Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar 05 Rhagfyr 2022 yn Ysgoldy Bethlehem am 7.00yh.

Pauline Lucas:
clercgeneurglyn@yahoo.com

## Llandre

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i Mary Thomas, Dolgelynen Llandre sydd yn glaf yn Ysbyty Bronglais ar ol damwain adref.

**Croeso gartref**
Croeso adref i Gwenda James, Lluarth, Taigwynion Llandre sydd wedi bod yn ysbyty Bronglais yn ddiweddar.

**Priodas**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Bethan Davies a Rhodri Jones, Bronallt, a briodwyd y mis diwethaf yn Aberystwyth.

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
07813 338647

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ

01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

Gwasanaeth argraffu diguro
Holwch Paul am bris!
paul@ylolfa.com
01970 832 304

y Lolfa
Talybont
Ceredigion
SY24 5HE
www.ylolfa.com

*Cyfarwyddwyr Angladdau*
***C. T. Evans***

***Perchnogion : Gwyn & Janet Evans***
***Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY23 5BS***

*Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn.*
*Wedi ei arwain yn Bersonol gyda Urddas.*
*Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Ddydd a Nos.*

***Ffôn 01970 820013***
***ebost : gwyn@ ct-evans.com***

WEST WALES ANTIQUES
CAPEL BANGOR
Ydych chi angen gwerthu hen bethau, neu efallai angen gwacâu tŷ?
• Dodrefn • Arwyddion Enamel • Tacsidermi • Peintiadau • Cerflunwaith a Dodrefn Ardd • Hysbysebion • Carthenni • unrhywbeth hen neu anarferol!
Prynwr a Gwerthwr Hen Bethau
www.west-walesantiques.co.uk 07866 005996 dryburghantiques@gmail.com


## Cyngor Cymuned **Trefeurig**

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 18 Hydref 2022 yn Festri Horeb, Penrhyn-coch. Cadeiriwyd gan y Cadeirydd, Eirian Reynolds. Roedd y cynghorwyr Lowri Emlyn, Llywelyn Evans, Delyth James, Shân James, Dai Mason, Gwenan Price, Richard Owen a Meirion Roberts yn bresennol ynghyd â'r Clerc a'r Cynghorydd Sir, Caryl Gruffydd Roberts. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y cynghorwyr Ceri Evans a Mel Evans.

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb, yn enwedig y cynghorwyr oedd wedi eu cyfethol yng nghyfarfod mis Medi, sef Llewelyn Evans, Dai Mason a Meirion Roberts. Yn anffodus roedd Ceri Evans yn methu bod yn bresennol. Roedd neges wedi dod gan Mel Evans yn gofyn iddo gael ei ryddhau o fod yn Is-gadeirydd oherwydd ymrwymiadau gwaith. Etholwyd Richard Owen yn Is-gadeirydd yn ei le.

Materion yn codi: y Parc – adroddodd y Clerc fod y gwaith o wastatau'r llwybr ger y cwrt tennis wedi ei wneud, ond roedd Mr Makaruk wedi cysylltu gyda'r Cyngor i ofyn a ellid gwneud gwaith tebyg yn agos i'r fynedfa i'r Parc o ochr y Bwthyn. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu gydag Aled Jones a gofyn am ddyfyn-bris, a gellid mynd ymlaen â'r gwaith yn syth. Gwefan y Cyngor – roedd dogfen wedi'i pharatoi i'w rhoi yn y *Cambrian News* ac ar wefan Cymuned Trefeurig yn gofyn i bobl oedd â diddordeb yn y gwaith o lunio gwefan i fynegi eu diddordeb yn y project. Sul y Cofio – cadarnhaodd Gwenan Price ei bod wedi trefnu i Steffan Jones i fynychu'r gwasanaeth fel biwgler.

Adroddiad y Cynghorydd Sir: cafwyd adroddiad llawn gan y cynghorydd sir ar ei gwaith.

Hyfforddiant: roedd y Clerc wedi cylchredeg rhaglen hyfforddi Un Llais Cymru. Roedd yn ofynnol i bawb fynychu'r cwrs ar y Côd Ymddygiad. Dywedodd Dai Mason ei fod yn siomedig iawn fod cyn lleied o'r cyrsiau ar gael yn Gymraeg. Penderfynwyd dweud wrth Un Llais Cymru fod y cynghorwyr yn berffaith fodlon gwneud cyrsiau ond y byddai gofyn iddynt fod ar gael yn Gymraeg, ac awdurdodwyd y Clerc i drafod hyn gyda ULlC.

Goleuadau stryd: roedd Eirian Reynolds a Richard Owen wedi cyfarfod gyda Simon Bray, Swyddog Goleuadau Cyhoeddus y Cyngor Sir, i drafod goleuadau stryd ym Mhenrhyn-coch. Y prif bwyntiau a ddaeth i'r amlwg oedd: roedd SB o'r farn fod angen lamp newydd ger y sgwâr yn cefnu ar Ger-y-llan, gan fod llawer o draffig drwy'r sgwâr a phobl yn croesi'n aml; gellid cyfiawnhau cael lamp newydd rhwng y Post a Maesheulog ac un o bosib rhwng y cae chwarae a Glan Ffrwd; roedd rhai lampau yn cael eu cuddio gan frigau oedd yn lleihau eu defnydd; gellid gwella'r sefyllfa yn sylweddol mewn mannau drwy gael golau cryfach ar rai o'r lampau presennol. Penderfynwyd edrych i mewn i gostau'r datblygiadau hyn.

# Menter Iaith yn cefnogi Cwpan y Byd

Yn lleol, fe fydd Cered yn cydweithio â Theatr Felin-fach i gynnal nifer o weithgareddau sy'n plethu chwaraeon a diwylliant a hynny oll trwy gyfrwng y Gymraeg. Dros yr wythnosau nesaf mi fydd gweithdai ffotograffiaeth, nosweithiau codi canu, noson o farddoniaeth a darllediadau byw o sioe radio Cered sef 'Cefn y Rhwyd' yn digwydd ar draws y sir. I gael mwy o fanylion am y gweithgareddau yma dilynwch Cered ar Facebook, Twitter ac Instagram neu e-bostiwch cered@ceredigion.gov.uk.

Dydd Llun, 21 Dachwedd ar ddiwrnod gêm gyntaf Cymru yng Nghwpan y Byd, bydd Cardi Iaith yn lansio cân a fydd ar gael ar ffurf trac cerddoriaeth yn unig ac mi fydd ffilm i gefnogi Cymru yn y gystadleuaeth. Cymerodd ysgolion cynradd Ceredigion ran mewn gweithdy i greu cerdd gyda'r Prifardd Ceri Wyn Jones a gafodd ei throi mewn i gân.

Mae holl ysgolion uwchradd y sir hefyd wedi bod yn rhan o greu cerdd gydag Aneirin Karadog ac mae'r gerdd honno bellach wedi gael ei throi i boster gan yr arlunydd Lizzie Spikes.

Mae'r Cyngor hefyd wedi paratoi pecyn adnoddau addysgol sy'n datblygu amrywiaeth o sgiliau drwy gyd-destun Cwpan y Byd, ac mae wedi'i rannu gyda phob athro yn y sir.

Mae yna gyffro mawr yn ysgolion y sir - maent yn barod i gefnogi Cymru! Mae'r holl waith yn sicr yn gwneud y Gymraeg yn gyffrous a pherthnasol i'n plant. Pe bai modd troi ymdrech yn goliau, bydd Cymru'n siwr o guro Cwpan y Byd! I gael y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau Cardi Iaith, dilynwch @CardiIaith ar Facebook.




STORFA CANOLBARTH CYMRU
MID WALES STORAGE
Storfa Cartref a Busnes
Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 Awr
Wedi ei wresogi
Bocses a 'bubblewrap' ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk
Mid Wales Removals
Ffôn: 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
www.midwalesstorage.co.uk

BRIDGE HOUSE CLEARANCE
Gardd neu Sied – Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim
f 07792457816/01974 261758

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

# Y Borth

**Cyfraniadau'r carnifal yn cefnogi achosion da**

Cyhoeddodd Pwyllgor Carnifal y Borth eu bod wedi codi cyfanswm o £10,000 at achosion da lleol yn ystod y rhaglen lawn o ddigwyddiadau a gynhaliwyd eleni.

Mewn cyfarfod diweddar, cytunodd y pwyllgor i rannu'r gronfa rhwng deunaw o grwpiau yn y pentref sy'n trefnu amrywiaeth o weithgareddau ar draws ystod o oedrannau.

Ymhlith y rhai sy'n derbyn arian eleni y mae Cyfeillion Brigâd Dân y Borth, Ysgol Craig yr Wylfa, Cymdeithas yr Henoed ac Eglwys Sant Matthew.



Diolch i'r cyfraniadau, bydd modd i'r grwpiau brynu offer, talu ffioedd, cynnal teithiau, trefnu gwesteion gwadd ac yn y blaen.

"Mae'n wych bod cynifer o grwpiau'r Borth yn gallu mynd ati i drefnu blwyddyn brysur o weithgareddau yn dilyn dwy flynedd o ansicrwydd," meddai Cadeirydd Pwyllgor y Carnifal, Carol Bainbridge. "Diolch i bawb am eu cefnogaeth hael."

Os hoffech fod yn rhan o'r Pwyllgor sy'n trefnu'r carnifal y flwyddyn nesaf, cysylltwch gyda Carol drwy anfon e-bost at carol_bainbridge@yahoo.co.uk.

| Cyfraniadau Carnifal y Borth 2022 | £ |
|---|---|
| Gwylwyr y Glannau y Borth | 200 |
| WI y Borth WI | 400 |
| Lleng Brydeinig y Borth | 200 |
| Clwb Rhwyfo'r Borth | 350 |
| RNLI y Borth | 400 |
| Gerddi Cymunedol y Borth | 500 |
| Brigâd Dân y Borth | 550 |
| Eglwys Sant Matthew | 500 |
| Côr y Borth | 400 |
| Caeau Chwarae'r Borth | 1000 |
| Henoed y Borth | 1000 |
| Clwb Pêl-droed y Borth | 600 |
| Hwb Cymunedol y Borth | 1500 |
| Ysgol Craig yr Wylfa | 1000 |
| Amgueddfa Gorsaf y Borth | 500 |
| Dolau Bach | 200 |
| Bowls y Borth | 400 |
| Clwb Ystwythder Cwn y Borth | 300 |
| **Cyfanswm** | 10,000 |



Siôn Corn yn Ffair Nadolig Elusennau'r Borth cyn y pandemig.

## Ffair Nadolig Elusennau'r Borth

Bydd Ffair Nadolig Elusennau'r Borth yn cael ei chynnal yn y Neuadd Gymunedol rhwng 10yb a 2yp ar ddydd Sadwrn 3 Rhagfyr.

Dewch yn llu i gefnogi elusennau lleol yn cynnwys Cymdeithas Rieni Ysgol Craig yr Wylfa, Clwb Pêl-droed y Borth; Clwb Ieuenctid a Hwb Cymunedol y Borth; Amgueddfa Reilffordd y Borth; RNLI y Borth; Nofwyr y Borth; WI y Borth; Cymdeithas Henoed y Borth; Gerddi Cymunedol y Borth; Eglwys Sant Matthew, y Borth, ac Eglwys yr Holl Seintiau, Llangorwen.

Mae mynediad i'r neuadd am ddim ond bydd tâl o £1.50 ar gyfer ymweld ag ogof Siôn Corn. Bydd y rhan fwyaf o'r stondinau yn derbyn arian parod nid cerdyn.

# Clwb Golff y Borth ac Ynys-las

Ar 21 Hydref, cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Clwb gyda Nans Morgan wrth y llyw fel Llywydd y Clwb am y tro olaf. Gyda swyddogion newydd yn cael eu hethol i'r pwyllgor a newidiadau yn y Capteiniaid a'r Llywydd, roedd hi'n noson brysur.

Lynda Evans sydd yn cymryd yr awenau gan Mair Jenkins gyda Dave Blesovsky yn olynu Bob Gill fel ein Capteiniaid newydd. Diolchwyd yn arbennig i Mair a Bob am eu holl waith ac ymroddiad wrth arwain fel Capteiniaid y Clwb.

Iori Jones sydd yn olynu Nans Morgan fel Llywydd y Clwb. Estynnwyd diolch diffuant i Nans am ei holl amser ac ymroddiad i'r clwb yn ystod y ddwy flynedd fel llywydd.

Drannoeth y cyfarfod blynyddol, cafwyd 'Drive In' gyda'r cyn Gapteiniaid yn pytio allan ar y deunawfed twll a'r Capteiniaid newydd yn gyrru oddi ar y twll cyntaf. Cafwyd tipyn o sbort a sbri gyda pheli oedd yn ffrwydro ac yn symud igam ogam yn ogystal ag ambell un go iawn!



Capteiniaid 2021-22 a chapteiniaid 2022-23



Y Llywydd newydd Iori Jones, gyda'r Capteiniaid Lynda Evans a Dave Belovsky.



Y gynulleidfa yn mwynhau gwledd o ganu gan gwmni Opera Dinas Abertawe.

# Perfformiad Opera

Roedd Neuadd Gymunedol y Borth dan ei sang nos Fercher 2 Tachwedd ar gyfer perfformiad o ‘Shoulder to Shoulder’ gan gwmni Opera Dinas Abertawe.

Caradog Williams oedd y cyfansoddwr gyda Libreto gan Brendan Wheatley, a’r tenorion Robyn Lyn Evans ac Aled Hall ymhlith y perfformwyr.

Prosiect ar y cyd oedd hwn rhwng Opera Dinas Abertawe a Men’s Sheds Cymru gyda chefnogaeth gan y Loteri, Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru.

**Newyddion o’r gorffennol**

Mae **Sue Dalton o’r Borth** wedi bod yn pori unwaith yn rhagor yn archifau papurau newydd y Llyfrgell Genedlaethol i ganfod beth oedd gan gyfryngau’r gorffennol i’w ddweud am fywyd yn y pentref yn y 19eg ganrif. Dyma gipolwg ar rai o’r straeon a gyhoeddwyd yn 1872.

*Aeth sgwner yn cludo pibellglai o Falmouth i Lerpwl ar y creigiau ger y Borth. Rhwyfodd pump o ddynion lleol allan ati i estyn cymorth a bu bron i’w cwch hwythau foelyd yn y tonnau. Cafodd y sgwner ei thynnu i’r lan yn hwyrach gan dynfad stem.

*Aeth un o bysgotwyr y Borth â masnachwr pysgod o Aberystwyth i’r llys er mwyn cael ei farilau sgadan yn ôl.

*Canfuwyd corff ar draeth y Borth. Roedd wedi’i olchi i’r lan ar ôl i gwch pysgota o Aberaeron suddo, gan foddi’r tri aelod o’r criw.

*Llongyfarchwyd capten o’r Borth ar basio’i arholiadau llongwriaeth. Bu un arall o gapteiniaid y pentref yn llai ffodus. Difrodwyd ei long wrth gario llwyth o uwchffosffad o Lundain i Whitehaven ond llwyddodd er hynny i gyrraedd y lan ym Mae Llandudno.



# Babi Newydd

Llongyfarchiadau mawr i Meg Hefin a’i phartner Piers ar enedigaeth eu hail blentyn.

Ganed Delphine de Vigne yn Llundain ar 9 Hydref, yn chwaer fach i Otis Hefin ac wyres i Elin Hefin.



Braf gweld Banon Hincks ar y rhaglen ‘Plant y sianel’ a chlywed iddi ddychwelyd i fyw i’r Borth ers y rhaglen 10 mlynedd nôl pan weithiai yn Llundain. Mae bellach yn fawr ei gofal o gleifion Ysbyty Bron-glais.

**R.J Edwards a’i Fab**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i’w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149

RHYD-Y-PENNAU
COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888

**Gwe Cambrian Web**
Cwmni lleol o Aberystwyth sydd yn creu gwefannau dwyieithog a gwasanaethau marchnata digidol ar gyfer busnesau bach a mudiadau.

Cysylltwch heddiw!




GWE Cambrian WEB
cambrianweb.com | 01970 623 906 | info@cambrianweb.com | @gwecambrianweb

# DIFYRION DIGIDOL

**Deian ap Rhisiart**

Y mis hwn, rwyf am drafod un ffordd hwylus iawn a didraffeth o gyrraedd gwefan benodol ar eich ffôn neu dabled heb orfod teipio ei chyfeiriad yn llawn.

Ydych chi wedi sylwi ar gornel posteri neu docynnau rhyw gôd rhyfedd yr olwg? Ydych chi wedi meddwl beth yw pwynt y côd hwn? i ateb y cwestiwn, dyma beth sy'n cael ei alw'n gôd QR neu *Quick response* i roi ei enw llawn. Mae'r dull hwn wedi bodoli ers blynyddoedd, yn mynd a dod o ran poblogrwydd ond mae'r côd hwn wedi ennill ei blwyf fel ffordd hwylus o allu cael mynediad sydyn a diffwdan at wefan. Os ydych y tu allan yn yr awyr agored ac eisiau manylion pellach am ddigwyddiad neu weithgaredd, mae'n gyfleus ac yn hawdd. O ran gwella hygyrchedd i bobl sy'n cael trafferth teipio, mae QR yn ffordd wych o allu osgoi y rhwystr hwnnw. Y cwbl sydd angen i chi ei wneud yw agor camera eich ffôn a'i bwyntio at y côd a'i ddal yno am eiliad er mwyn ei sganio. Wedyn fe ddaw cyfeiriad y wefan i'r golwg, yna, pwyswch ar y ddolen ac fe fydd hynny yn eich arwain at y wefan. Mae'n bosib canfod codau QR mewn pob math o sefyllfaoedd bellach ond yn tueddu i fod yn boblogaidd gyda thocynnau digwyddiadau, yn rhoi gwybodaeth am leoliad o bwys amgylcheddol, safleoedd hanesyddol neu atyniadau twristaidd a llawer iawn mwy. Mae rhai sefydliadau yn defnyddio codau QR i greu helfa drysor er enghraifft i blant. Felly cadwch lygaid am y côd QR ac ewch ati i'w sganio os ydych yn chwilfrydig. Mae'n bosib hefyd i greu eich côd QR am ddim eich hun i hyrwyddo unrhyw fath o ddigwyddiad ar boster, er mwyn gallu tywys y defnyddiwr i ganfod manylion pellach ar eich gwefan Facebook. Mae yna sawl gwefan yn cynhyrchu codau QR am ddim e.e. https://www.the-qrcode-generator.com/

Er mwyn creu eich côd QR unigryw, mae'n rhaid copïo a phastio cyfeiriad llawn y wefan yn y blwch ac mae'r wefan uchod yn trosi'r cyfeiriad yn gôd QR yn awtomatig, gallwch wedyn ei lawrlwytho fel delwedd ffeil png/jpg i'w ddefnyddio mewn dogfen Photoshop neu Word er mwyn ei osod ar ddelwedd arall. Mae'n bosib hefyd i greu codau QR sy'n storio neges destun yn cynnwys gwybodaeth bellach am ddigwyddiad, lleoliad, hanes neu rywogaeth ym myd natur. Mae llwybrau treftadaeth yn tueddu i gynnwys QR ar hysbysfwrdd i roi gwybodaeth ar hyd y daith am leoliadau pwysig neu sydd o ddiddordeb. Ond mae'n bosib hefyd i arwain y defnyddiwr at ddogfen PDF neu ap cysylltiedig. Mae'r potensial yn ddibendraw. Felly, beth am roi tro arni? Creuwch eich côd QR eich hun a'i osod mewn hysbyseb? Mae'n hwyluso mynediad i bawb ac yn arbed y drafferth i bobl orfod teipio'r cyfeiriad hir.

Os hoffech chi fel mudiad neu gymdeithas arweiniad pellach ar godau QR, neu'n awyddus i gael hyfforddiant am ddim ar wella ymgysylltiad cymunedol trwy'r cyfryngau cymdeithasol, cysylltwch gyda mi deian.apRhisiart@wales.coop

**Ydych chi'n awyddus i greu ffilm fach eich hun trwy gymorth eich ffôn neu dabled?**

**Mae Cymunedau Digidol Cymru yn cynnal sesiwn ar-lein am ddim ym mis Rhagfyr er mwyn gwella eich sgiliau digidol trwy greu ffilm bersonol yn adrodd eich profiadau neu gofnodi hanes gydag eraill.**

**www.digitalcommunities.gov.wales/cy/**





Cymunedau Digidol Cymru – Hyder Digidol, Iechyd a Lles
Digital Communities Wales – Digital Confidence, Health and Well-being
Darparwyd gan / Delivered by cwmpas
Rhaglen Llywodraeth Cymru / Welsh Government Programme

# LLE MAE NHW NAWR?

I Gapel Madog yr awn y mis hwn yn ein colofn ‘Ble maen nhw nawr?’ i ddarllen hanes dwy chwaer – un wedi gadael bro ei mebyd ac ymgartrefu yn Ne-Ddwyrain Cymru a’r llall wedi dychwelyd i ffermio ar fferm y teulu.

**MERERID**

Bro fy mebyd yw Capel Madog ac mae llawer i un yn adnabod fy chwaer a minnau fel Mererid ac Angharad Rhos-goch, ac er taw gartef fydd Rhos-goch wastad i mi rwyf bellach yn byw yng Ngilwern, yn ymyl Y Fenni, Sir Fynwy gyda fy ngŵr Marc a’r ddau gi. Wedi i mi raddio o Brifysgol Bangor gyda gradd a diploma ôl-radd mewn Cerddoriaeth bûm yn gweithio i’r Eisteddfod Genedlaethol yn ne Cymru. Es ymlaen ar ôl hynny i weithio i Dafydd Wigley yn y Cynulliad (dyna’r enw bryd hynny). Dyna amser cyffrous! Roedd y Cynulliad ym misoedd cyntaf ei fodolaeth a Dafydd Wigley yn arweinydd yr wrthblaid. Cefais sawl profiad bythgofiadwy yn y Cynulliad a hynny’n cynnwys bod mewn lifft gydag Alun Michael (dim ond y fi a fe) yn syth wedi iddo ymddiswyddo fel Prif Weinidog Cymru. Bues hefyd yn gweithio i Alun Ffred Jones wedi i Dafydd Wigley ymddeol o’r Cynulliad. Cefais gyfnod hapus iawn hefyd yn gweithio i Mudiad Ysgolion Meithrin a hynny yn Ne-Ddwyrain Cymru fel Cyfarwyddwr Talaith. Erbyn heddiw rwy’n gweithio i UCAC fel Swyddog Maes y De-Ddwyrain ac yn Is-Ygrifennydd Cyffredinol yr undeb sydd â’i bencadlys yn Aberystwyth. Byddaf felly yn dod adref i Gapel Madog yn lled aml nid yn unig i weld y teulu ond hefyd ar gyfer y gwaith. Rwy’n aelod o Glwb Gwawr y Fenni ac yn ceisio hyrwyddo’r iaith Gymraeg cymaint ag sy’n bosibl yn yr ardal hon o Gymru, a braf yw clywed ychydig mwy o’r Gymraeg erbyn hyn yma.





**ANGHARAD**

Wedi i mi adael Ysgol Gyfun Penweddig es i astudio busnes yng Ngholeg Ceredigion a chefais swydd yn syth gyda Chyfreithwyr Humphreys, Roberts & Bott fel ysgrifenyddes. Cefais gyfnod hapus yno cyn symud i weithio i Sterling, y ddwy swydd o fewn tafliad carreg i’w gilydd yn Aberystwyth. Ond yn ôl i gefn gwlad Capel Madog yr es ac yn ôl i ffermio gyda fy rhieni yn Rhos-goch a dyna lle rwyf wedi bod. Dysgais hefyd sut oedd gyrru loris ac  rwy’n cofio’r diwrnod fel ddoe pan basiais fy mhrawf lori artic.  Erbyn hyn rwyf wedi ymgartrefu drws nesaf i Rhosgoch yng Nghwmain gyda fy mhlant Aneurin, Martha, Elan a Blodwen ac mae’n dda gweld y plant i gyd yn helpu allan ar y fferm. Os byddwch chi’n fy ngweld ar fy nhrafyls, yn y lori, y land rover, y tractor neu’r cwad cofiwch godi llaw!

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor
Llun-Sadwrn
10.00-5.00
Brecwast
ar gael
01970 820 050

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Laurence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a’r Sul, cardiau cyfarch siop drwyddiedig
01970 828312

## Penrhyn-coch

**Suliau Horeb**

*Tachwedd*

**20** 10.30 Clwb Sul yn Horeb
2.30 Beti Griffiths Bethel yn ymuno

**27** 10.30 Clwb Sul yn Sant Ioan
2.30 Ymuno yn oedfa Bethel, Aberystwyth

*Rhagfyr*

**4** 2.30 Peter Thomas Oedfa gymun

**11** 10.30 Peter Thomas

**18** 2.30 Oedfa Nadolig Peter Thomas

**25** 9.00 Oedfa bore Nadolig Judith Morris

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau mawr i Sioned a Lionel Plant, Ger y cwm, ar enedigaeth merch fach – Loti Plant, ar 20 Hydref – chwaer fach i Alfie a wyres i Janice a Kevin Evans, Maesyfelin.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn a Robert Dobson a'r teulu, Cae Mawr, ar farwolaeth brawd Robert – Evan – yn y Bala.

**Cymdeithas y Penrhyn**

A oes dyfodol i ffermwyr yr ucheldir – dyna oedd testun sgwrs Dafydd Morris-Jones yng nghyfarfod mis Hydref. Mae Dafydd yn ffermwr, yn gyfieithydd, ac yn angerddol dros bob agwedd o fywyd cefn gwlad a rhoddodd ddarlun cryno i ni o hanes amaeth yng Nghymru ers y cyfnod Neolithig.

Roedd wedi dod â blanced a wnaethpwyd o wlân defaid Tymawr, Ponterwyd, y fferm y mae ei deulu wedi bod yn ei ffermio ers sawl cenhedlaeth, i ddangos i ni, a'r blanced hwnnw wedi ei greu ym melin Pontarfynach yn y 1930au. Dyma flanced a wnaethpwyd o wlân a gneifiwyd â llaw a'i gynhyrchu'n lleol ar felin a yrrid gan ddŵr. Mae hyn yn hollol wahanol i'r dull o gneifio a phrosesu gwlân heddiw.

Soniodd fel y bu i'r mynachlogydd ganolbwyntio ar gadw defaid ar eu tiroedd eang a chreu busnes gwlân a'i gwnaeth yn ddelwyr gwlân mwyaf Ewrop. Yn dilyn ymdrechion i wella amaeth yr ucheldir yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd y Rhyfel Byd Cyntaf yn ergyd fawr oherwydd colli cymaint o bobl a cheffylau. Nododd sut y bu i hynny effeithio ar bolisïau amaeth ers yr Ail Ryfel Byd gan arwain at boblogaeth denau yn yr ucheldiroedd.

Er gwaetha popeth, mae ffermwyr yr ucheldir wedi goroesi'r cyfan a chred Dafydd y gallai'r mynyddoedd gynhyrchu llawer mwy heddiw a bod angen dod â'r gwaith a'r bobl yn ôl.


Roedd hi'n sgwrs eithriadol o ddiddorol oedd yn codi cwestiynau am ein holl ffordd o fyw.



**Graddio**

Llongyfarchiadau i Rhian Wynne, Maes Heulog, sydd wedi graddio mewn therapi llais a iaith ym Mhrifysgol Plymouth.

# SUDEP – codi ymwybyddiaeth







Ar 18 Hydref cymerodd Cheryl Morgan-Walker, ei theulu a'i ffrindiau ran mewn taith cerdded pum kilomedr "My Way to 5K" i godi ymwybyddiaeth yr oedd dirfawr ei hangen o Farwolaeth Annisgwyl Sydyn mewn Epilepsi (SUDEP) er cof am ei brawd Martin Morgan, o Benrhyn-coch a fu farw ym mis Gorffennaf 2015 yn 37 oed. Roedd Martin yn dioddef o epilepsi o oedran ifanc, treuliodd y rhan fwyaf o'i blentyndod i mewn ac allan o'r ysbyty oherwydd difrifoldeb ei epilepsi. Fodd bynnag, roedd ei epilepsi wedi gwella dros amser ac nid oedd wedi cael trawiad ers dros 15 mlynedd. Nid oedd Martin a'i deulu yn ymwybodol o'r risg o SUDEP a bod modd atal 42% o farwolaethau epilepsi. Nod Diwrnod Gweithredu SUDEP, a gynhelir pob blwyddyn ym mis Hydref, yw codi ymwybyddiaeth y rhai sy'n dioddef o epilepsi er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ffactorau risg. Yn anfoddog, nid yw Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol yn siarad am SUDEP er mwyn peidio codi ofn ar eu cleifion, ac eto mae gan y rhai sy'n byw ag epilepsi a'u teuluoedd yr hawl i fod yn ymwybodol o'r risgiau posibl yn union fel y byddech chi'n cael llawdriniaeth mewn ysbyty. SUDEP Action yw'r unig elusen sy'n arbenigo mewn cefnogi a chynnwys pobl sydd wedi cael profedigaeth gan epilepsi. Maent yn ymroddedig i godi ymwybyddiaeth o risgiau epilepsi a mynd i'r afael â marwolaethau epilepsi. Mae'r elusen wedi darparu cymorth mawr ei angen i




## Derbyn gwobr

Llongyfarchiadau i Richard Owen dderbyniodd Wobr Cyfraniad Arbennig Plaid Cymru gan Elin Jones AS yng Nghynhadledd Plaid Cymru yn Llandudno ddiwedd Hydref.














Cheryl ers marwolaeth Martin ac mae Cheryl wedi cyrraedd ei nod i ledaenu ymwybyddiaeth o SUDEP a chodi arian i gyfrannu at yr ymchwil y mae mawr ei angen i pam mae SUDEP yn digwydd fel nad oes rhaid i deuluoedd eraill ddioddef o golli anwylyd. Nid ydym yn gwybod beth sy'n achosi i SUDEP ddigwydd na phwy fydd yn cael eu heffeithio, ond mae ymchwilwyr wedi nodi ffactorau risg allweddol a all gynyddu'r risg o SUDEP ac mewn rhai achosion, mae pethau cadarnhaol y gellir eu gwneud i leihau risgiau. Mae 1 o bob 1000 mewn perygl o SUDEP y flwyddyn, ac mae'r risg hon yn amrywio yn dibynnu ar y math o drawiad. Dylai cleifion epilepsi gael trafodaethau rheolaidd gyda'u clinigwyr a all asesu eu risgiau a rhoi camau ar waith i'w lleihau.

**Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2023**
Cyfarfu pwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch yn ystod y mis a phenderfynu symud ymlaen i drefnu Eisteddfod yn 2023. Fe'i cynhelir ar Ebrill 21-22.



**Plant Cylch Meithrin Trefeurig** wedi gwisgo lan ar gyfer disgo calan Gaeaf yn ystod sesiwn bore y Cylch.



**Brownies Penrhyn-coch gyda'u pypedau calan-gaeaf.**



## Hen Lun

Diolch i Brian Ashton am gael rhannu y llun yma fu ar Facebook yn dangos Ysgol Penrhyn-coch ym 1957. Mae ei wraig Liz (Jones gynt) yn y llun. Diolch i Llinos a Gaenor am gymorth gyda'r enwau. Mae gwraig Brian - - yn y llun.

Rhes gefn_ Rhys Jones (Prifathro), Ronnie Evans, Robert Giles, Leslie Evans, Marianne Jones, Menna Williams, Eirlys Lewis, Auriel Morgan, Margaret Hughes, Awena Morgan. Rhes ganol - Dilwyn Lewis, Keith Thomas, Hywel Jones, Tomi Lewis, John Jones, Barbara Morgan, Llinos Lewis, Elizabeth Evans, Moira Evans, Non Jenkins (Athrawes) a Mrs. Jones (cogyddes)
Rhes flaen - Gwynfor Jones, Huw? Giles, Colin Evans, Alan Jones, David Jones, Kevin Jones,?, ?, Elizabeth Jones, Sandra Thomas, Shirley Jones, Gaenor Morgan.

# Cam ymlaen i gynlluniau ar gyfer canolfan sbectrwm a pharc busnes gwyrdd



Llun o'r awyr o gampws Gogerddan Prifysgol Aberystwyth lle bydd prif swyddfa'r Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol yn cael ei lleoli

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi croesawu'r newyddion bod dau brosiect blaenllaw wedi cael sêl bendith i symud ymlaen i ail gymal Bargen Twf Canolbarth Cymru, sy'n werth miliynau o bunnoedd.

Yn dilyn y cyhoeddiad, bydd gwaith pellach yn cael ei wneud nawr ar yr achosion busnes ar gyfer Canolfan Sbectrwm Genedlaethol a Pharc Arloesi Dyfodol Gwyrdd.

Dywedodd yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesedd y Brifysgol: "Rydym wrth ein bodd bod y ddau brosiect pwysig yma wedi'u cynnwys yn ail gymal proses asesu Bargen Twf Canolbarth Cymru. Mae cyfnewid gwybodaeth rhwng y byd academaidd a diwydiant, a harneisio ymchwil i ysgogi arloesedd wrth wraidd y naill a'r llall. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda thîm Bargen Twf Canolbarth Cymru a'n partneriaid diwydiant i ddatblygu'r prosiectau uchelgeisiol hyn ymhellach gyda'r nod o ddod â buddiannau positif o ran swyddi a'r economi i'r rhanbarth."

Mae cynlluniau Prifysgol Aberystwyth ymhlith rhestr fer gyfredol o wyth prosiect sylweddol sy'n cael eu hystyried ar gyfer derbyn cyllid o'r Fargen Dwf. Caiff penderfyniadau terfynol ynghylch dyfarnu cyllid eu gwneud yn dilyn trydydd cymal y broses datblygu achosion busnes.

**Canolfan Sbectrwm Genedlaethol**

Byddai'r Ganolfan yn helpu i ateb y galw cynyddol am gymwysiadau a thechnolegau newydd sy'n defnyddio'r sbectrwm radio megis ffermio deallus, Rhyngrwyd y Pethau, cerbydau ymreolaethol ar y tir, y môr a'r awyr, tu hwnt i 5G, a monitro iechyd o bell.

Byddai hyfforddiant hefyd yn cael ei gynnig i'r genhedlaeth bresennol a'r genhedlaeth nesaf o beirianwyr sbectrwm a systemau radio, dan arweiniad Adran Ffiseg y Brifysgol sydd eisoes yn cynnig cyrsiau gradd mewn Peirianneg Sbectrwm Radio.

Byddai'r ganolfan yn gwneud defnydd o amgylcheddau arfordirol, ucheldirol a gwledig amrywiol y rhanbarth, gyda phrif swyddfa wedi'i lleoli ar gampws Gogerddan y Brifysgol yn adeilad yr Arglwydd Milford a adnewyddwyd yn ddiweddar diolch i fuddsoddiad gan y Brifysgol a Llywodraeth Cymru.

Mae cynllun Prifysgol Aberystwyth ar gyfer Canolfan Sbectrwm Genedlaethol yn seiliedig ar gydweithio gydag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys BT, QinetiQ ac eraill er mwyn cynorthwyo gwireddu llawn botensial y cysyniad.

**Parc Arloesi Dyfodol Gwyrdd**

Nod Parc Arloesi Dyfodol Gwyrdd yw hybu twf busnes gwyrdd a datblygiad economaidd yn seiliedig ar gynaliadwyedd, gan gynnig cyfleoedd newydd ar gyfer cydweithio rhwng y byd academaidd a diwydiant.

Byddai'n adeiladu ar lwyddiant buddsoddiadau diweddar dan arweiniad Prifysgol Aberystwyth, gan gynnwys ArloesiAber sy'n darparu cyfleusterau ac arbenigedd o'r radd flaenaf yng Ngogerddan ar gyfer y sectorau biotechnoleg, amaeth-dechnoleg, a bwyd a diod.

Dywedodd Prif Weithredwr ArloesiAber, Dr Rhian Hayward: "Mae buddsoddiad yn ArloesiAber gan Brifysgol Aberystwyth; Ymchwil ac Arloesedd y DU drwy Gyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol y BBSRC, a Llywodraeth Cymru drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, eisoes yn talu ar ei ganfed o ran creu swyddi uchel eu gwerth a chlwstwr o egin fusnesau. Mae prosiectau sydd ar y gweill yn ArloesiAber yn ehangu'n gyflym ac yn dangos addewid mawr o ran denu partneriaethau newydd rhwng y Brifysgol a diwydiant. Byddai Parc Arloesi Dyfodol Gwyrdd yn cynnig lle ychwanegol ar gyfer ehangu a hwyluso ymchwil ac arloesi cydweithredol pellach gyda diwydiant."

Mae lleoliad Parc Arloesi Dyfodol Gwyrdd o dan ystyriaeth ac fe gaiff penderfyniad terfynol ei wneud yn ystod y broses o ddatblygu'r achos busnes.

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Shan ac Alys Jones
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodyddion /podiatryddion graddedig ac wedi cofrestru efo'r
MRCPod

D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

# Capel Bangor / Pen-llwyn

**Suliau Capel Pen-llwyn:**
**Tachwedd**
**13** 2.00 Dr. Watcyn James
**20** 5.00 Y Parchg Judith Morris
**27** 5.00 Dr. Watcyn James

**Rhagfyr**
**4** 10.00 Dr. Rhidian Griffiths
**11** 10.00 Dr. Watcyn James (Oedfa deulu y Nadolig)
**18** 5.00 Gair a'r Geiriau yng Nghapel y Garn
**25** 10.00 Dr. Watcyn James yng Nghapel y Garn

**Yn yr Ysbyty**
Dymuniadau gorau am adferiad buan iawn i Idloes Roberts, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Treforus, Abertawe. Gobeithio y byddwch yn ôl adre yn fuan iawn yn teimlo lawer yn well.

**Profedigaeth**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr. a Mrs. Noel Scott, Awelon, Dolypandy ac hefyd â'u merch Heather wrth iddynt golli chwaer a modryb sef Marie oedd yn byw yn Huddersfield. Roedd hi (a Noel wrth gwrs) yn un o dri ar ddeg o blant, ac o ganlyniad yn deulu agos iawn. Cofion cynhesaf atoch fel teulu.

**Gwellhad buan**
Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mr. John Bull, Karalven a gafodd lawdriniaeth yn ysbyty Bron-glais yn ddiweddar. Hyderwn y cewch adferiad iechyd llwyr ac y byddwch yn ôl wrth eich gwaith yn y dyfodol agos.

**Merched Y Wawr, Cangen Melindwr**
Roedd tipyn o brysurder a chyffro yn Neuadd Pen-llwyn nos Fawrth, Tachwedd 1af, wrth i aelodau'r gangen gyrraedd gyda'u ffedogau a'u tuniau cacen. Y wraig wadd oedd Mirain Haf, sydd â busnes lewyrchus yn paratoi cacennau a bwydydd ar gyfer pob math o achlysuron. Fe'i croesawyd a diolchwyd iddi gan lywydd y gangen, Lynne Davies, cyn i'r aelodau fwrw ati i greu dyn eira o eisin meddal. Cafwyd tipyn o hwyl yn cael yr eisin i edrych yn debyg i'r enghraifft a ddangoswyd gan ein gwraig wadd. Ar ôl rholio a siapio ac addurno, gwelwyd enghreifftiau digon derbyniol ac addas i'w rhoi ar ben y cacennau bach a ddarparwyd ar ein cyfer gan Mirain. Aethpwyd ymlaen wedyn i greu cymeriadau Nadoligaidd eraill ar ffurf dau aderyn yr ydym yn eu cysylltu â'r Nadolig, sef pengwin a robin goch. Roedd pawb yn falch iawn o'u creadigaethau ac yn edrych ymlaen yn fawr at arbrofi ymhellach rhwng nawr a'r Nadolig. Roedd y digwyddiad yn ein hatgoffa fod y Nadolig ar y gorwel. I gloi'r noson, cafwyd lluniaeth ysgafn a baratowyd gan Eirlys Davies ac Eirwen McAnulty.

**Apel gan Sioe Capel Bangor a'r Cylch**
Eleni mi gynhaliwyd sioe flynyddol Capel Bangor am y 50fed tro ar y 5ed o Awst. Hoffem ddathlu'r achlysur arbennig yn ein cinio blynyddol ym Mis Ionawr a gwahodd cyn aelodau o'r pwyllgor. Os oeddech chi yn rhan o'r pwyllgor neu os ydych yn nabod rhywun oedd yn rhan o bwyllgor y sioe mae croeso I chi cysylltu gydag Andrea Jones, andrea254@hotmail.co.uk neu Bethan Bebb, m.e.bebb@talk21.com Bydd mwy o fanylion am y cinio yn y rhifyn nesaf.





# Pêl-droed Penrhyn-coch

*Hydref*
**22** Penrhyn-coch 2 Conwy 5
**29** Derwyddon Cefn 4 Penrhyn-coch 1
*Tachwedd*
**5** Penrhyn-coch 3 Bwcle 4

Eilyddion
*Hydref*
**15** Caersws 1 Penrhyn-coch 4
**28** Penrhyn-coch 2 Llanfair-ym-Muallt 0
*Tachwedd*
**5** Llanfair-ym-Muallt 1 Penrhyn-coch 0

# Cyngor Cymuned **Melindwr**

Cynhaliwyd cyfarfod Mis Hydref dan gadeiryddiaeth ein Cadeirydd y Cynghorydd Jim Palmer.Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth bedwar o'r cynghorwyr.

Mae y Cyngor Cymuned yn gobeithio trefnu Hyfforddiant Sylfaenol Cymorth Cyntaf i'r gymuned.

Er gwybodaeth mae y diffibiliwr sydd ar safle Ysgol Pen-llwyn allan o wasanaeth gan nad yw hi yn bosibl cael y padiau angenrheidol ar hyn o bryd.

**Unrhyw Fater Arall.**
Ffordd New Cross i Pantycrug- mae llawer o dai wedi cael eu hadeiladu yn ardal Pantycrug – er diogelwch mae angen arwydd rhybudd ynglŷn â cyflymder traffig o gwmpas y mynediad.

Tyllau a stad y ffordd o Fferm Pentre i Penlan ac o'r Hen Swyddfa Post lan heibio Penlon.

Arwyddion Ward Melindwr – mae angen eu glanhau.

Y clerc i adrodd yr uchod i Gyngor Ceredigion.

Gobeithir rhoi grantiau bychain i fudiadau lleol i gefnogi gweithgaredd neu brosiect. Bydd angen gwneud cais trwy lythyr neu ebost (cyngorcymuned melidwrcouncil@gmail.com) erbyn Rhagfyr 31 2022

Noder fod yna sedd wag ar y Cyngor; os oes rhywun â diddordeb cysylltwch â'r clerc neu un o'r Cynghorwyr am fanylion.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Iau Tachwedd 17 yn Neuadd Pen-llwyn Capel Bangor.

# Cylch Meithrin Pen-Llwyn

Rydym wedi cael hanner tymor prysur yn mwynhau amrywiol weithgareddau. O'r diwedd mae ein sgrin Clevertouch yn ei le. Diolch yn fawr i gronfa Cefn Croes am ei ariannu. Ymddangosodd 4 disgybl ar ddwy rhaglen o'r gyfres newydd Cywion Bach ar Cyw. Braf oedd medru eu gwylio yn y Cylch a oedd yn brofiad cyffrous i bawb!

Medrwyd hefyd ymuno a'r 230,000 o blant eraill i ddathlu Jambori Cwpan y Byd yr Urdd ar lein. Gwisgodd y plant mewn dillad Coch i ddymuno'n dda i'n Tim Cenedlaethol yng Nghwpan Peldroed y Byd.

Rydym wedi cofio am y rhai a gollodd eu bywydau yn y Rhyfeloedd Byd drwy astudio'r pabi coch.

Ein prosiect diweddaraf yw Gwesty Trychfilod! Mae'r adeiladwyr wedi dechrau adeiladu a cewch fwy o fanylion ar yr antur fawr yn y rhifyn nesaf!











## Adolygiad

Dewi Roberts, Hywel Griffiths, Stephen Tooth *Yr afon a'r graig; ceubyllau afonydd Cymru* Carreg Gwalch, 132t. £14




Go brin y byddai clawr y llyfr hwn yn tynnu llygad unrhyw ddarpar ddarllenwr/brynwr. Y lleiaf y gellid ei ddisgwyl ar glawr llyfr yw fod ei deitl a'i is-deitl ac enw(au)'r awduron yn weladwy ac yn ddarllenadwy i'r llygad sy'n digwydd disgyn arno, ond nid felly yma. Gobeithio mai ymdrech i adlewyrchu dirgeledd ac anweladwyedd y byd dan y dŵr yw hynny yn hytrach na diffyg dyluniad.

Ceir naws cynnwys y gyfrol, mewn print hynod o fân ac aneglur, yn y cyflwyniad ar gefn y clawr: "Lle mae afonydd yn llifo dros y graig gall dŵr a gwaddod gyda'i gilydd greu cerfluniau naturiol, hardd a chywrain. Un o'r ffurfiau mwyaf trawiadol yw ceubyllau: tyllau lled-grwn wedi eu cerfio i welyau creigiog afonydd aflonydd yr ucheldir."

Mae'r adran gyntaf o ddeg adran y llyfr yn gyflwyniad i hanes a natur ceubyllau ac yn ddefnyddiol iawn i ddarllenwyr annaearegol eu cefndir. Yn wir, erbyn diwedd y 25 dalen roedd termau megis "creigwely" a "chreigwely-llifwaddodol cymysg" wedi dod yn gyfarwydd ac yn hawdd eu deall. A dyna ddechrau agor llygaid i wir destun y llyfr, sef y ffurfiau sydd yn edrych fel petaen nhw wedi eu cerfio yn gain ar hyd glannau ac o dan ddŵr afonydd, - y ceubyllau, "nad yw eu pwysigrwydd ecolegol neu ddiwylliannol yn y tirlun wedi cael y sylw dyledus."

Dilynir yr adran gyntaf hon gan adran Ecoleg Ceubyllau – "mae'n debyg mai eogiaid sy'n defnyddio ceubyllau yn y modd mwyaf dramatig" a'r testun a'r ffotograff trawiadol o eog yn "llamu o blymbwll i geubwll", ynghyd â lluniau o fadfall y dŵr, rhiain y dŵr, a phryfed y gwellt a'u casys rhyfeddol, yn ein trawsgludo i fyd arall sy'n rhan annatod o'n byd ni ond nad yw'r rhan fwyaf ohonon ni yn ymwybodol ohono.

Pwysigrwydd ceubyllau i bobl oedd yn dibynnu ar bysgod am fwyd, a pheryglon marwol yr amgylchedd hwnnw, sydd yn Adran Ceubyllau a Hanes, heb anghofio'r llên gwerin a dyfodd ohono, yn enwedig hanes y diafol yn temtio'r hen wraig i groesi'r bont uwch Crochan y Diafol ym Mhontarfynach. Arolwg o sut mae golwg, sŵn a gwead ceubyllau wedi ysbrydoli gwahanol fathau o gelfyddyd yn ystod y canrifoedd diweddaraf sydd yn Ceubyllau a Chelfyddyd; mae teitlau'r tair adran nesafl - Enghreifftiau Rhyngwladol, Ceubyllau ac Iechyd, Ymweld â Cheubyllau Cymru yn siarad drostyn nhw'u hunain. Dilynir hyn i gyd gan esboniadau o eiriau dieithr, rhestr o adnoddau ychwanegol printiedig ac ar-lein, ac awgrymiadau am weithgareddau addysgol bywiog.

Rhwng y testun cynhwysfawr (gresyn na fyddai wedi ei olygu yn fwy gofalus), a'r ffotograffau lliw cywrain, mae yma becyn eang o wybodaeth fydd yn cyfoethogi ymweliad unrhyw un – boed athro neu benteulu neu grwydryn unig - ag unrhyw afon, ond yn arbennig yr afonydd hynny lle mae ceubyllau trawiadol, megis – i enwi'r rhai agosaf at ddarllenwyr y *Tincer* – Mynach ym Mhontarfynach, Efyrnwy ger Dolanog, Rheidol yng Nghwmrheidol, Ystwyth ger Pont-rhyd-y-groes, a Theifi yn Henllan a Chenarth.

Os nad yw'ch amgylchiadau chi yn caniatau i chi fynd yn gorfforol, bydd y gyfrol hon yn fodd i fynd â chi yno yn ysbrydol. **Llinos Dafis**

# Enwau lleoedd
## Angharad Fychan

Saif *Plas Wigwam*, tŷ a restrwyd oherwydd ei nodweddion pensaernïol Sioraidd diweddar, yng nghysgod hen simnai fawr pentref mwyngloddio Cwmsymlog. Credir iddo gael ei adeiladu tua chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gartref i reolwr y gweithfeydd mwyn, ond mae'n ddiddorol mai 'Cottage & Gardens' sydd ar y safle yn ôl y Map Degwm yn 1845.



**Llun drwy garedigrwydd Jane Chappell, gynt o Blas Wigwam.**

Ni ymddengys ei enw ar fapiau hyd yn ddiweddar iawn, ond ac yntau'n rhan o stad Gogerddan, nid yw'n syndod mai ymhlith papurau'r stad honno yn y Llyfrgell Genedlaethol y daw'r dystiolaeth gynharaf ohono.

Mewn dogfen 'Gogerddan Estate Particulars of Holdings' (Gogerddan AA13) a luniwyd tua dechrau'r ugeinfed ganrif, nodir bod tenantiaeth Mr Colin Ballard ar 'Wigwam' wedi dechrau ar 25 Mawrth 1903.

Roedd yn parhau yn rhan o'r stad ugain mlynedd yn ddiweddarach pan restrwyd ef fel 'The Wigwam' mewn catalog o ddaliadau i'w gwerthu mewn arwerthiant yn ysgoldy Pen-bont Rhydybeddau ar 8 Mawrth 1924 (Catalog Arwerthiant Ceredigion 220).

Mae'n rhaid na werthwyd ef bryd hynny, gan fod papur newydd y *Welsh Gazette* yn 1946 (31 Hydref, t.[2]) yn nodi mai 'the Wigwam' oedd trigfan y Capten Herbert W. Pryse, un o Brysiaid Gogerddan, ym misoedd yr haf.

Erthygl am deulu Pryse Gogerddan yng *Nghylchgrawn Hanes Cymru* yn 1978 (9, t.407-31) yw'r ffynhonnell ysgrifenedig gynharaf y gwn i amdani sy'n cyfeirio at y tŷ fel 'Plas Wigwam', er fy mod i'n sicr mai dyna'r ffurf a arferid ar lafar erbyn y cyfnod hwnnw.

Mae'n amlwg felly mai fel *Wigwam*, ar ei ben ei hun, y câi'r lle ei adnabod hyd tua chanol yr ugeinfed ganrif, ac mai ychwanegiad diweddarach oedd yr elfen *plas*. Gallai hynny fod wedi digwydd naill ai drwy i'r gair cyffredin *plas*, fel disgrifiad o natur yr annedd, gael ei ymgorffori fel rhan o'r enw, neu bod yr ychwanegiad yn ymgais fwriadol i ddyrchafu statws y lle.

Ond beth fyddai arwyddocâd yr enw?

Er mai ystyr gyffredin y gair *wigwam* i ni heddiw yw 'math o babell gromennog', dengys yr *Oxford English Dictionary* bod y gair wedi ei ddefnyddio yn Saesneg ers 1817 i gyfeirio'n gellweirus at unrhyw fath o dŷ annedd neu adeilad. O ystyried dylanwad teulu Gogerddan a'i gysylltiadau Seisnig ar yr ardal, yn ogystal â'r holl fewnfudwyr o Loegr a ddaeth i weithio ym mwyngloddiau'r cyffiniau, tybed ai'r ystyr ysmala hon i *wigwam* a welir yn yr enw *Plas Wigwam*?

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru

**www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**

## Colofn **Elin Jones AS**

Rhwng yr ansicrwydd mawr sydd yn San Steffan o hyd, mi rydym i gyd yn poeni am yr economi a chyllid ein cartrefi. Mae peth cysur i'w gael yn y ffaith fod Ben Lake AS wedi galw ar y Canghellor newydd i ddarparu mwy o gefnogaeth i'r rheini sy'n defnyddio tanwydd oddi ar y grid, gan taw cynnig o £100 i gymorth i bob tŷ yn unig sydd wedi ei wneud hyd yma. Ond rydyn ni'n gwybod nad yw hyn yn ddigonol. Mae Plaid Cymru hefyd yn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru drwy alw am sicrhau taw y rheini sy'n ennill y fwyaf o gyflog yng Nghymru ddylai dalu'r trethi uchaf.

Os fyddwch chi'n ei chael yn anodd i dalu eich biliau, cofiwch fod peth cefnogaeth ar gael gan Lywodraeth Cymru, ac mae dipyn o wybodaeth i'w gael ar wefannau'r Llywodraeth, a'r Cyngor Sir. Cofiwch hefyd fod cyngor am sut i ddelio gyda dyled a'r cymorth sydd ar gael drwy wasanaeth Cyngor ar Bopeth drwy ffonio 01239 622020.

Hefyd mis yma bu i mi, Ben ac aelodau o bwyllgor Trawslink Cymru gwrdd gyda Lee Waters AS, Gweinidog Llywodraeth Cymru â chyfrifoldeb dros drafnidiaeth, i drafod y posibilrwydd o ailagor y rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin. Er i'r Gweinidog gytuno fod y bwriad yno yn y tymor hir, roeddwn yn siomedig i glywed nad oes arian digonol ar rheiffyrdd wedi ei ddatganoli i Gymru i'w galluogi i flaenoriaethu'r brosiect.

Rwy'n parhau i dderbyn nifer o ymholiadau a chwynion am wasanaethau bws y sir. Mae recriwtio'n dal i fod yn broblem fawr dros nifer o sectorau, ac yn yr un modd mae cyflogi gyrwyr yn broblem i'r cwmnïau bysus. Rwy'n parhau i fonitro'r sefyllfa ac i roi pwysau ar yr awdurdodau i sicrhau fod Ceredigion yn gallu cael y gwasanaethau rydym eu hangen, gynted fydd hyn yn bosib. Dwi'n gobeithio cwrdd gyda'r Gweinidog i gael diweddariad ar y sefyllfa yn yr wythnosau nesaf.

Cefais y fraint y mis yma o fod yn rhan o agoriad Canolfan Addysg Iechyd newydd Prifysgol Aberystwyth. Dechreuodd y garfan gyntaf o fyfyrwyr nyrsio ar eu hastudiaethau yn y Ganolfan ym Mhrifysgol Aberystwyth ddechrau mis Medi, a'r gobaith yw y bydd hyn yn helpu adnoddau nyrsio Bron-glais i dyfu hefyd.

Hoffwn longyfarch Ann Bowen Morgan ar gael ei hethol fel Cynghorydd Sir Plaid Cymru newydd Llanbedr Pont Steffan. Cynhaliwyd etholiad trefnus a chwrtais, a diolch i'r ymgeiswyr am eu hymdrechion. Pob dymuniad da i ti Ann.

Diolch hefyd i'r gweithwyr iechyd am eu holl ymdrechion i ddarparu'r frechiad ffliw a Covid, a bydden i'n annog pawb sy'n gymwys i sicrhau eich bod yn cael eich brechiad chithau gynted â phosib. Cadwch yn ddiogel.

# Bow Street

**Suliau y Garn**
**10.00**
*Tachwedd*
**13** Lyndon Lloyd
**20** Bugail
**27** John Roberts

*Rhagfyr*
**4** Bugail
**11** Noddfa
**18** Oedfa Deuluol 5.00 Gair a'r Geiriau yng Nghapel y Garn
**25** Bugail - Gofalaeth

**Suliau Noddfa**
**(Pob Oedfa am 10.00)**
**Tachwedd**
**20** Parch. Richard Lewis
**27** Cyfeillach

**Rhagfyr**
**4** Parch. Richard Lewis. Cymundeb.
**11** Parch. Richard Lewis
**18** Oedfa Nadolig
**24** Gwylnos am 11.30 p.m.
**25** Uno yn y Garn




**I ddathlu tîm pêl-droed Cymru a'i lwyddiant o gyrraedd Cwpan y Byd Pêl-droed, mae'r Mentrau Iaith wedi cyhoeddi cyfres o furluniau ar draws Cymru. Yn ystod y mis ymddangosodd un o Rhys Norrington Davies ar Gae'r Piod – un o gyfres ymddangosodd trwy Gymru. Yn anffodus, fodd bynnag, oherwydd iddo gael ei anafu mewn gem gynghrair i'w glwb Sheffield United ni fydd Rhys yn ddigon iach i fedru mynd allan i chwarae yn Qatar.**

**Capel y Garn**
Roedd cyfarfod agoriadol y Gymdeithas Lenyddol, nos Wener, Hydref 21 yn achlysur poblogaidd a bywiog. Yr Athro Geraint H Jenkins ddaeth aton ni i roi sgwrs ar y teitl "Geiriau'n Chwerthin", sef cyflwyniad yn canolbwyntio ar ddigrifwch Tegwyn Jones. Cawsom ein hatgoffa o'i ffraethineb digymar mewn limrigau a phenillion, i oedolion a phlant, ac yn bennaf wrth gwrs yn ei ddarluniau a'i gartwnau dirifedi. Diolch i Iestyn a Marian Beech Hughes roedd arddangosfa o'i waith wedi ei gosod yn y festri i gyd-fynd â'r digwyddiad, a hyfryd oedd gallu croersawu Tegwyn a'r teulu i'n mysg i gyd-fwynhau â ni.

Mae Cymdeithas y Chwiorydd yn dal i gyfarfod am ddau o'r gloch ar brynhawn Mercher cyntaf bob mis am gwpaned a sgwrs, ac mae croeso i unrhywun ymuno â ni. Bydd cyfarfod Rhagfyr 7fed yng nghaffi Crefftau Pennau i gael ychydig o flas y Nadolig,







**Rhys Norrington Davies ar ymweliad â Cae Piod ar 5 Tachwedd.**

**Merched y Wawr Rhydypennau**
Croesawyd ni yn gynnes iawn gan Brenda Jones ein Is Lywydd gan nad oedd Bethan Hartnup yn hwylus. Croeso cynnes i aelod newydd, sef Nest Gwilym, bu ei mam Gwenda Edwards yn aelod ffyddlon o'r gangen. Cydymdeimlwyd â Sian Hayward a'r golli ei gŵr, a gyda nifer o aelodau eraill sydd wedi colli perthnasau yn ddiweddar.

Ein gwraig wadd am y noson oedd Llinos Griffiths o'r Cwmni Dyfi Naturals. Cychwynodd Llinos ei chwmni ei hun rhyw bum mlynedd yn ôl, gwneud sebon a Shampoo. Roedd yn broses hir iawn i gael yr holl waith papur ag ati yn eu lle , cyn gallu dechrau gwerthu. Roedd rhaid cael tystysgrif ac yswiriant ar gyfer pob sebon gwahanol. Eglurodd y broses o ychwanegu gwahanol aroglau.

Diolchodd Brenda yn fawr i Llinos yna cafodd yr aelodau gyfle i brynu a gwnaeth pawb yn fawr o'r cyfle. Paratowyd paned i bawb gan Meinir Roberts a Marian Beech Hughes.

**Pysgota môr**
Dymuniadau gorau i Helen Pearce, fydd yn cystadlu ym Mhencampwriaethau Byd Pysgota Môr yn cynrychioli Cymru yn Nhunisia 19-26 Tachwedd.

**Priodas aur**
Dymuniadau gorau i John a Joyce Bowen, 35 Tregerddan, ddathlodd eu priodas aur ar Hydref 28.

**Symud cartref**
Dymuniadau gorau i Valerie Davies, Manteg, sydd wedi symud i Chippenham i fod yn agosach at y teulu, bydd chwith mawr hebddi gan iddi fyw yn Manteg am 53 mlynedd. Hefyd dymunwn ben blwydd hapus iddi yn 80 ar Dachwedd 30ain.

**Pen-blwydd Arbennig**
Yr ydym yn cofnodi nifer o ben-blwyddi MAWR y mis yma: Mrs Mair Davies, Irlwyn, Y Lôn Groes, ar y 15fed; Mrs Brenda Jones, Glynteg, Y Lôn Groes ar y 24ain; a Mrs Ann Jones, Trem y Ddôl, ar y 3ydd o Ragfyr. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i'r tair.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlir yn ddiffuant â theulu 3 Brynmeillion ar farwolaeth tad Anwen ar y 23ain o Hydref, a hynny mor fuan ar ôl iddi golli ei mam yn gynharach yn y flwyddyn. Bydd llawer ohonom yn cofio am Arwyn Pierce fel Pregethwr Cynorthwyol cymeradwy iawn yn ein capeli dros y blynyddoedd.

**Noddfa**
Mrs Mair Lewis oedd yn gyfrifol am y Gyfeillach a gynhaliwyd ar y 23ain o Hydref ac yr oedd wedi dewis Diolchgarwch am y Cynhaeaf fel thema naturiol ar gyfer y sesiwn.

Cafwyd darlleniadau pwrpasol gan Mrs Jane James a Mrs Meretta Griffiths a chyflwyniadau cryno gan Mair a'r Athro Hywel Roberts. Rhannodd Mair ei hatgofion am Gyfarfodydd Diolchgarwch Capel Cwm Coryn yn yr hen Sir Gaernarfon a'r arfer o gynnal pob cyfarfod diolch ar ddydd Llun penodol drwy'r Sir. Cyfeiriodd Hywel at y drefn yn nhref Aberteifi ac at y sefyllfa arbennig yr oedd ef ei hun ynddi fel Mab y Mans. Mrs Louisa Phillips oedd yn cyfeilio a mawr oedd y gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth.

# Staff y feithrinfa yn dringo Cadair Idris ar gyfer Apêl Cemo Bronglais

**Waw! Da iawn i 24 o staff a ffrindiau o Ofal Plant Gogerddan a ddringodd Cadair Idris ar gyfer Apêl Cemo Bronglais ar ôl i un o'u cydweithwyr gael diagnosis o ganser y fron.**



Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr Emma Healy a'i staff wedi codi mwy na £2,000 i ddweud diolch am y gofal y mae eu cydweithiwr Jacqueline Walters yn ei dderbyn yn Uned Ddydd Cemotherapi Ysbyty Bronglais. Ac nid yw'n rhy hwyr i gyfrannu https://www.justgiving.com/GogerddanChildcare22

Dywedodd Emma, y mae ei meithrinfa ym Mhenrhyn-coch: "Tîm Gogerddan wnaeth e! Diwrnod gwych yn dringo Cadair Idris i godi arian at Apêl Cemo Bronglais, ffarweliodd yr hyfryd Jacqueline â ni gan roi y cymhelliant i ni ac a'n hatgoffodd pam yr oeddem yn ei wneud.

"Mor falch o bawb; roedd yn ddringfa anodd ond wrth gefnogi a helpu ein gilydd fe wnaethom ni! Aeth un grŵp chwe milltir i'r llyn ac un yr 11 milltir lawn i'r brig!

"Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu hyd yn hyn ac wedi anfon negeseuon, rydym yn ei werthfawrogi'n fawr. Diolch i Tesco am gyfrannu byrbrydau a diodydd, ac i Jade yn Wild Mountain Instruction a Kieran am fod y tywyswyr mwyaf hyfryd, cymwynasgar ac amyneddgar."

Ychwanegodd Emma:



"Roedden ni eisiau cefnogi'r Apêl oherwydd bod un o'n haelodau staff, Jacqueline Walters, yn derbyn triniaeth yn yr uned ddydd cemotherapi ar hyn o bryd ac mae hi'n gweld yn uniongyrchol sut mae angen uned newydd a'r effaith y bydd yn ei chael."

Cafodd Jacqueline, 51, sy'n nyrs feithrin yn y ganolfan gofal plant ac yn byw ym Mronnant, ddiagnosis o ganser y fron ym mis Ebrill ac ar ôl llawdriniaeth mae bellach yn derbyn cemotherapi yn yr uned.


Meddai: "Mae fy ngŵr Darryl a minnau mor falch o'r holl staff a hoffem ddiolch iddynt o waelod ein calonnau am eu cefnogaeth. Fe wnes i noddi un o fy nhedi bêrs, Idris, i fynd ar yr heic gyda nhw ac roedd yn wych gweld llun ohono ar y copa."

Dywedodd Nicola Llewelyn, Pennaeth Elusennau Iechyd Hywel Dda, elusen swyddogol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: "Rydym wrth ein bodd yn adrodd bod yr Apêl bellach wedi pasio ei tharged. Fodd bynnag, o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, rydym yn rhagweld y bydd costau adeiladu yn cynyddu. Bydd pob ceiniog a godir, gan gynnwys rhoddion yn y dyfodol, felly yn mynd yn uniongyrchol i gronfa'r Apêl, gydag unrhyw arian dros ben yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r rhai yr effeithir arnynt gan ganser ar draws Ceredigion a chanolbarth Cymru.

"Rydym yn ddiolchgar i Emma, Jacqueline a staff y feithrinfa am eu cefnogaeth ac i bawb arall sydd wedi cyfrannu i'n helpu i gyrraedd ein targed."

I gael rhagor o wybodaeth am yr Apêl ewch i: www.elusennauiechydhywelddda.org.uk





# Ysgol **Rhydypennau**



**Diolchgarwch**
Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch eleni yng Nghapel Noddfa. Yno, ymysg y plant a staff yr ysgol, ymunodd nifer o drigolion y gymuned â ni. Yn ystod ein gwasanaeth cyflwynodd disgyblion blwyddyn 6 neges y Diolchgarwch a gwybodaeth am ein elusen eleni sef 'Apêl Wcráin/Ukraine Train.'

Hoffai'r ysgol ddiolch i'r Parchedig Richard Lewis, ein gŵr gwadd am y Prynhawn ac i aelodau Capel Noddfa am hwyluso trefniadau'r dydd. Braf cyhoeddi y codwyd £280 tuag at yr elusen.

**Coginio**
Da iawn i bawb fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth 'Cogurdd' yn ddiweddar. Cystadleuaeth goginio wedi ei threfnu gan yr Urdd yw 'Cogurdd' ac y mae bellach yn ran bwysig o ddigwyddiadau blynyddol yr ysgol. Eleni, oherwydd nifer yr ymgeiswyr, cynhaliwyd yr ornest yn neuadd y pentref. Tasg y rownd oedd creu plât arbennig o ffrwythau a cheisio plesio ein beirniad, Wendy Jones, cogyddes yr ysgol. Ar ddiwedd yr ornest, Mirain o flwyddyn 6 ddaeth i'r brig. Llongyfarchiadau i Mirain a diolch yn fawr iawn i bob cystadleuydd am sicrhau gornest o'r safon uchaf.

**Ymweliadau**
Yn ddiweddar, cafodd plant y Meithrin ymweliad diddorol nepell o adeilad yr ysgol draw yn siop sglodion y pentref. Cafodd y plant gyfle i weld sut mae trawsnewid tatws i sglodion ac yna, rhan orau'r ymweliad-y blasu! Diolch yn fawr i Gwilym am y croeso cynnes a'r sglodion hyfryd!

Fel rhan o Brosiect Coedtir Anian, fe aeth plant blwyddyn 4 fyny i Lasbwll, ger Machynlleth. Yno, fe ddaethant yn rhan o brosiect 3 mlynedd i adnewyddu coedwig drofannol Geltaidd drwy blannu Coed Derw i ailgyflenwi Coedwigoedd Hynafol Cymru. Hoffai'r ysgol ddiolch i Clarissa a Nia am gynnal gweithgareddau'r dydd.

Ar y 4ydd o Dachwedd aeth plant y Meithrin a'r Derbyn ar y bws i goedwig Gogerddan. Yn y goedwig, cafodd y plant gyfle i arsylwi amryw o bethau diddorol iawn gan gynnwys bywyd gwyllt a phlanhigion di-ri.



**Hanes**
Fel rhan o'u gwaith thema, fe drefnwyd diwrnod 'Cyfnod y Chwedegau' i blant blwyddyn 3 a 4. Yn ystod y difyrrwch, fe gafodd y plant gyfle i wisgo dillad o'r cyfnod a dawnsio i gerddoriaeth yr oes draw yn neuadd y pentref. Grwfi!



**Siarter Iaith**
Yn ddiweddar cafodd plant blwyddyn 6 gyfarfod gyda'r Prifardd, Ceri Wyn Jones ynghyd â 38 o ysgolion eraill y Sir er mwyn creu cerdd addas i sbarduno chwaraewyr tîm pêl-droed Cymru yn ystod Cwpan y Byd. Yn dilyn y cyfarfod, cydweithiodd y plant yn ddiwyd er mwyn creu y gwpled hon:

*'Yma o Hyd', fe ganwn yn groch;*
*cefnogi Cymru – y cewri mewn coch.*

Fe ddaeth criw teledu i ffilmio'r plant yn perfformio'r gwpled mewn dull rap wythnos cyn i'r gystadleuaeth ddechrau.
Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
*http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk*
*@YGRhydypennau dilynwch ni ar drydar.*








# Ysgol **Craig yr Wylfa**

**Ysgol y Gymuned**
**Gwasanaeth Diolchgarwch**
Eleni penderfynwyd cynnal ein gwasanaeth diolchgarwch yn neuadd yr ysgol. I annerch y disgyblion gwahoddwyd Nicholas Bee, y curad lleol atom, ac fe gafwyd neges bwrpasol ganddo am bwysigrwydd diolch am ein bwyd. Mae Ysgol Craig yr Wylfa yn falch iawn o fod wedi cefnogi Jubilee Storehouse ers blynyddoedd bellach ac eleni eto penderfynwyd casglu bwydydd ar gyfer yr elusen bwysig yma sy'n dosbarthu bwyd i bobl yr ardal. Diolch yn fawr i bawb oedd wedi gallu cefnogi eleni a diolch i Miss Ann am yr arddangosfa arbennig.

**Heddlu**
Ar ddiwedd y mis cafwyd ymweliad dros TEAMS gyda Pc Hannah i drafod pwysigrwydd cadw'n ddiogel ar-lein. Yn ystod y sgwrs pwysleisiwyd ei bod hi'n anghyfreithlon mewn rhai achosion i blant dan oedran arbennig i gael mynediad at y cyfryngau cymdeithasol megis Facebook a Twitter. Roedd hi'n braf iawn i blant Ysgol Craig yr Wylfa fynd draw i Ysgol Tal-y-bont fel rhan o brosiect Pont yr Wylfa ar gyfer y weithgaredd yma. Roedd yn gyfle da i wneud ffrindiau newydd.



**Henoed**
Wedi sawl blwyddyn o fethu oherwydd sefyllfa Covid 19, roedd hi'n braf iawn i dderbyn gwahoddiad Cymdeithas Henoed y Borth a pherfformio nifer o eitemau iddynt yn Neuadd Uppington. Diolch yn fawr iawn am y croeso a gobeithio eich bod wedi mwynhau yn ein cwmni.

**Siarter Iaith**
**Diwrnod T Llew Jones**
Mae dathlu Diwrnod T. Llew Jones wastad yn esgor ar syniadau difyr a chyffrous. Eleni bu'r plant yn gwisgo fel cymeriadau o rai o lyfrau enwocaf yr awdur poblogaidd. Roedd hi'n hyfryd i weld yr ymdrech a'r gwisgoedd lliwgar ar yr iard amser chwarae.



**Yma o Hyd**
Roedd hi'n dipyn o hwyl i gyfrannu at brosiect arall cyffrous gan Gydlynydd Siarter Iaith Ceredigion yn ystod mis Hydref. Er mwyn dangos ein cefnogaeth i dîm pêl-droed Cymru ar gyfer Cwpan y Byd bu'r plant yn gwisgo dillad coch gwyn a gwyrdd ac yn creu fideo gyda holl ysgolion y Sir i ganu Yma o Hyd. Wedi wythnosau o ymarfer bu'n rhaid ffilmio'r plant yn canu a bydd y cyfan yn cael ei ddanfon i dîm Cymru i ddymuno lwc dda iddynt cyn y gystadleuaeth.

**Ysgol Eco**
Rydym wedi bod yn ffodus i gael cymorth i ddatblygu darn o dir i fod yn Ysgol y Goedwig dros y misoedd diwethaf ac rydym yn gwneud defnydd helaeth o'r ardal yn wythnosol. Ond, yn ystod mis Hydref, fe wnaethom fentro ychydig ymhellach yn yr ardal o gwmpas yr ysgol i chwilio am ffrwythau a hadau a dail, ac wrth roedd yn rhaid manteisio ar y cyfle i ddringo coed!





Croeso i deuluoedd
6 teledu gyda Sky Sports
Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr
Bwrdd 'pool' a byrddau darts
Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim
TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF/CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC
01970 828 992

# Ysgol **Pen-llwyn**

**Dosbarth 1**
Mae tymor yr Hydref wedi bod yn thema o dan sylw yn nosbarth 1 - buon ni am dro o gwmpas tir yr ysgol i gasglu arwyddion megis - dail amryliw, brigau a degau o gonceri! Buon yn arbrofi trwy farcio a paentio gyda'r brigau ayyb - crewyd darluniau a chymysgedd o liwiau cyfoethog iawn!

'Y Draenog' oedd ffocws ymchwil yr Hydref-buodd y plant yn gweithio mewn parau i gyflwyno gwybodaeth am y creadur bach pigog!

**Cwrdd diolchgarwch**
Braf oedd cael mynd fel Ysgol i Gapel y pentref ac i gwrdd â Dr Watcyn James, y gweInidog. Cyflwynodd y ddau dosbarth eu storïau thema ar sail 'Pie Corbett' a mwynheuodd pawb gyd ganu. Cafwyd perfformiad hyfryd o waith sgript dosbarth 2 a chyflwynodd dosbarth 1 y broses o wneud blawd.

**Ras hwyl Rheidol**
Bore hyfryd eleni eto-braf oedd gweld nifer o redwyr a chefnogwyr yn mwynhau y ras- diolch i Eurgain Ellis am drefnu a chydlynu cyn y digwyddiad ac i'r CRhA am gynorthwyo. Diolch i Jonathan Little (Event Eateries) am gael benthyg y gril, Spar am y flapjacks oedd ym magiau'r enillwyr, Statkraft am y medalau ac am gael defnyddio'r ganolfan ymwelwyr, Tesco am y ffrwythau, Alison Jones Schoolwear am y bagiau, La-bel am y poteli dwr ail-ddefnyddiadwy ar gyfer yr enillwyr, Dwr Ty Nant am y poteli dwr, Morrisons am y rholiau, Bookers am y cig moch a Lyn Hughes, Troedrhiwgwinau am yr arwyddion ffordd.



Dyma'r canlyniadau:

**2k merched/ysgol gynradd**:
1af - Maisy Magee
2il - Rose Mallows
3ydd - Llinos Rowlands
2k bechgyn/ysgol gynradd:
1af - Arthur Finney
2il - Owain Hughes
3ydd - Cai Jones

**5k dynion**:
1af - James Cowan
2il - Kieran Daniels
3ydd - James Price

**5k merched**:
1af - Emma Price
2il - Ffion Hughes
3ydd - Anwen Whitehead

**Cogurdd**
Braf gweld nifer fawr o ddisgyblion yn cystadlu o fewn yr Ysgol eleni - 8 ymgais i gyd a phob un wedi creu campweithiau o frechdanau gwahanol! Miss Cathy oedd yn beirniadu a llongyfarchiadau i Llinos a ddaeth yn fuddugol, Andi yn ail ac yna Gryffydd yn drydydd.

**Dosbarth 2**
Ar gyfer ein gwaith yn edrych ar ein cynefin mae'r disgyblion wedi bod yn edrych ar fwyngloddio a'r ardal leol. O fewn eu gwersi Celfyddydau Mynegiannol maent wedi bod yn arbrofi gydag amrywiaeth o arddulliau megis collage, siarcol, paent dyfyrliw, golygu ffotograffau a.y.b. Mae'r disgyblion wedi bod yn myfyrio ar eu gwaith arbrofi ac mi fyddant yn mynd ymlaen i ddewis eu hoff arddull ac yn creu darn celf derfynol i'w arddangos i'w rieni

Yn dilyn ymweliad i Gwmystwyth fe wnaeth Ioan Lord ddod i gynnal gweithdy efo'r disgyblion. Rhannodd ystod o wybodaeth ddiddorol efo'r disgyblion am hanes Cwmystwyth a'r mwynwyr oedd yn gweithio yna. Dangosodd hen luniau o'r mwynglawdd i'r disgyblion a chafodd y plant y cyfle i wneud sgets o rai o'r lluniau.



**Ffarwelio**
Cogyddes Miss Cathy
Mae cyfnod Miss Cathy wedi dod I ben o weithio fel cogyddes yn yr Ysgol-mae Miss Cathy wedi rhoi gwasanaeth ardderchog I ni fel Ysgol ac wrth fwydo Ysgol Meithrin Pen-llwyn,Ysgol Syr John Rhys ac Ysgol Mynach. Diolch yn fawr iddi am yr holl brydiau o fwyd ardderchog rydyn wedi cael yn yr holl ysgolion.

Mae cyfnod Catrin Griffiths wedi dod I ben gyda ni y yr Ysgol- diolch iddi am weithio yn galed gyda ni -byddwn yn gweld dy eisiau.




**Dathlu'r Nadolig**
Byddwn yn dathlu eleni ar yr 8fed o Ragfyr wrth i ni gynnal noson agored I'r rhieni ac i'r gymuned i ddathlu gwaith gwych y tymor. Yn ystod y noson byddwn yn canu carolau ac mi fydd ganddon ni sawl cwmni annibynol yn gwerthu nwyddau hyfryd - DEWCH YN LLU cychwyn am 6 yh - bydd yna raffl fawr hefyd - cysylltwch gyda'r Ysgol os am brynu tocyn raffl o flaen llaw neu dewch I'r noson. Os ydych eisiau gweld ein hysgol fach dewch i fwynhau yn ein cwmni -cyfle perffaith i weld gwaith ein disgyblion.

<u>Ar y Cyd</u>
Thema Newydd i dosbarth 1 Miss Cory ac i ddosbarth 1 Pen-llwyn oedd Pwmpenni! Cafon ni ddiwrnod o ymchwilio ar fferm Pwmpenni Pendre-roedd yna lond cae o bwmpenni yn ein disgwyl! Roedd pob un yn chwlio am ei hoff bwmpen -rhai oren, melyn, gwyn a hyd yn oed rhai lympiog! Yna yn y sied cafon ni weithdai-creu hylif hud wrth ddefnyddio powdwr bicarb a finegr, printiadau o bwmpenni gan ddefnyddio paent, ymchwilio'r hadau o fewn y pwmpenni a tynnwyd lluniau di-ri o'r pwmpenni o onglau gwahanol! Yn ôl yn y dosbarth buon ni'n arbrofi trwy creu 'cast' o gwmpas sawl pwmpen er mwyn creu modelau, lluniau allan o hadau y pwmpenni, creu teimladau ar nifer o bwmpenni a mwynhau gwrando ar stori 'Y bwmpen perffaith amherffaith'!





# Ysgol **Penrhyn-coch**

**Sbri Diri**
Cafodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen hwyl fawr yn Sbri Diri yr Urdd yn Ysgol Penweddig drwy ganu a dawnsio yng nghwmni Siani Sionc a Mr. Urdd wrth gwrs.

**Cogurdd**
Braf oedd gweld cymaint o blant yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth Cogurdd yr Urdd eleni. Bu Telyn, Harrison, Florence, Mya, Cai, Harri, Twm, Elis, Iona a Gruff yn creu brechdanau bendigedig. Diolch yn fawr iawn i Mrs. Watkins am feirniadu. Llongyfarchiadau mawr i Gruff a wnaeth ddod yn fuddugol yn rownd yr Ysgol a da iawn iddo am gymryd rhan yn y rownd rhanbarthol yn Ysgol Bro Teifi.

**Gweithdy Barddoniaeth**
Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 mewn gweithdy rhithiol yng nghwmni y prifardd Ceri Wyn Jones. Pwrpas y gweithdy oedd i greu cwpled ar gyfer cerdd arbennig gan Ysgolion Cynradd Ceredigion i dîm pêl-droed Cymru i ddangos ein cefnogaeth iddynt.

**Coedwig Gogerddan**
Aeth plant y Dosbarth Derbyn draw i Goedwig Gogerddan am dro. Cawson nhw llawer o hwyl yn gwneud amryw weithgaredd yna.



**Sgwrs PC Dave Goffin**
Diolch i PC Dave Goffin am gynnal sgwrs gyda'r disgyblion am ddiogelwch Gŵyl Calan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt.

**Llysgenhadon Gwych**
Da iawn i Lysgenhadon Gwych yr Ysgol am hyrwyddo hawliau plant ac annog dysgwyr i gwblhau holiadur Comisiynydd Plant Cymru, Rocio Cifuentes, cyn gwyliau'r hanner tymor.

**Cwrdd Diolchgarwch**
Cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch yng Nghapel Horeb. Seiliwyd ein gwasanaeth ar stori 'Y Samariad Trugarog'. Cafwyd darlleniad o'r Beibl, drama o'r Stori, llefaru y gerdd 'Eisiau ac Angen' gan Menna Jones, gweddïau ac emyn. Da iawn chi blant am gyflwyniadau gwych!







## Y Ddwy Ysgol ar y cyd

**Sut mae fy ardal yn fy ysbrydoli?**
Dyma gwestiwn ein thema ar hyn o bryd. Bu sawl trip diddorol a chyffrous.

**Blwyddyn 1, 2, 3 a 4**
Bu cyffro mawr yn yr ysgol pan ffeindiodd blentyn ddilledyn carpiog di enw ar iard yr ysgol. Wedi edrych yn ofalus ar y dilledyn gwelwyd bod neges ddiddorol wedi ei guddio yn y dilledyn. Neges oddi wrth Pat Pen-dam yn holi am gwmni plant Ysgol Penrhyn-coch yn Llyn Pen-dam. Y plant felly yn mynd ati ar google maps i ddarganfod ble roedd Llyn Pen-dam. Roedd y cyffro y diwrnod canlynol gyda'r plant yn mynd ar y bws i Lyn Pen-dam. Ar ôl cyrraedd yno roedd yna neges yn aros iddynt yn ei holi i greu creadur a byddai yn gallu byw yn Llyn Pen-dam yn gwmni i Pat. Roedd y plant yn barod am yr her. Nôl yn yr ysgol bu y plant yn gwrando ar chwedlau enwog - Llyn Y Fan Fach a hanes Llyn Barfog ac yn mwynhau dysgu am greaduriaid a chymeriadau gwahanol. Eu her nawr yw creu cymeriadau eu hun - ysgrifennu portreadau ac yn creu model 3d allan o glai. Mae'r plant wrth eu bodd yn arbrofi ac yn casglu syniadau. Am gyffrous!

**Blwyddyn 5 a 6**
Y mae blwyddyn 5 a 6 yn cael hwyl arni wrth edrych ar y diwydiant mwyngloddio a fu yn yr ardal. Yn gyntaf, pob clod i'r plant am gerdded taith y mwyngloddwyr o Gwmerfyn i Gwmsymlog – tua 4 milltir. Yna, aethant i Fwynglawdd Llywernog am y dydd i flasu beth oedd y daith tanddaearol a bywyd bob dydd fel i'r mwyngloddwyr yno. Yn olaf, bu'r plant i Gwmystwyth i edrych ar yr adfeilion a dysgu mwy am hanes y mwyngloddwyr yng nghwmni Ioan Lord. Diolch i Ioan am siarad gyda'r plant ac am gynnal gweithdy yn yr ysgol hefyd. Yr oedd pob lleoliad yn sbardun wych i'n gwaith Llythrennedd a Chelfyddydau mynegiannol. Bu'r plant yn sgetsio a thynnu ffotograffau tra yn y 3 lleoliad.

Diolch i Anna ap Robert am ddod mewn i'n helpu i greu dawns i ddangos bywyd y mwyngloddwyr. Diolch hefyd i Miss. Seren am ein helpu i greu darn o waith tecstiliau am fwyngloddio.

Ein cam nesaf yw creu arddangosfa greadigol o'r hyn a ddysgwyd erbyn canol mis Tachwedd. Haws ddweud wrth wynebau'r plant y cyffro a gawson nhw wrth ddysgu am hyn.

# Tasg y Tincer

Ddaru chi fwynhau'r noson tân gwyllt? Gawson ni sioe wych ar Gae Piod, Bow Street, a digonedd o 'bang' a 'crac' a'r 'wsh' wrth i'r tân gwyllt sgrialu drwy'r awyr, cyn ffrwydro'n gawod o sêr!

Diolch yn fawr i'r ddau liwiodd llun mis Hydref: Elinor Jenkins ac Elis Jackson, y ddau o Bow Street. Dy enw di, Elinor, ddaeth allan o het bwced Cymru y tro hwn – Llongyfarchiadau mawr, a diolch i ti, Elis, am dy lun arbennig.



Elinor

Mae Cwpan y Byd FIFA ar fin cychwyn ar 20 Tachwedd – falle eich bod chi'n nabod rhywun sy'n teithio i Qatar! Bydd 32 tîm yn chwarae, ac mae gan Gymru dair gêm yn ystod y mis: yn erbyn UDA, Iran a Lloegr. Amdani, bois! Roedd yn braf gweld Clwb Penrhyn-coch ar S4C wrth i ni glywed pwy oedd yn y garfan. Cofiwch ganu: 'Er gwaetha pawb a phopeth ry'n ni yma o hyd!"

Ac mae gan Gymru dîm merched ardderchog – mae ganddyn nhw gêm gyfeillgar yn erbyn y Ffindir ar 12 Tachwedd yn arena Pinatar yn Sbaen. Bydd yr enwau ar gyfer pencampwriaeth UEFA 2025 yn cael eu tynnu ar ddechrau 2023, gyda'r ymgyrch yn dechrau o ddifri ym Medi. Amdani, ferched!



| | |
|---|---|
| Enw | |
| Cyfeiriad | |
| Ysgol | |
| Rhif ffôn | Oed |

Y mis hwn, lliwiwch lun y chwaraewr pêl-droediwr ar fin cicio am y gôl. Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Rhagfyr 1af. Ta tan toc!

ISSN 0963-925X

9 770963 925009

*Rhif 453 | Tachwedd 2022*